Cardiff
Caerdydd

# Cynllun Lles Caerdydd 2023-2028

# Adroddiad Blynyddol 2025/26









This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.


CARDIFF

# Cynnwys


Rhagair 4

Cyflwyniad 5

Dangosyddion Canlyniadau Lefel Dinas: Trosolwg 7


## Amcan Lles


Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu 8

Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn 16

Cefnogi Pobl Allan o Dlodi 22

Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus 30

Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru 37

Caerdydd Un Blaned 43

Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus 51

# Rhagair

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd wedi parhau i wneud cynnydd wrth gyflawni ei Gynllun Lles Lleol (2023-2028), gan weithio ar y cyd i wella lles ledled y ddinas a chefnogi canlyniadau gwell i'n cymunedau.

Mae llawer i fod yn falch ohono o hyd. Mae Caerdydd yn parhau i ddangos gwerth gwaith partneriaeth cryf, gyda chynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd allweddol. Mae hyn yn cynnwys bod y ddinas gyntaf yn y DU i gael ei hailachredu fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF, sy'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus i ymgorffori hawliau plant a sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Yn fwy cyffredinol, mae partneriaid wedi parhau i gryfhau ymyrraeth gynnar, gwella sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd, ac ehangu mynediad at gyfleoedd i bobl ledled y ddinas. Fel prifddinas, mae Caerdydd hefyd yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth gefnogi gweithgarwch economaidd, bywyd diwylliannol a hunaniaeth genedlaethol.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn eistedd ochr yn ochr â set o heriau parhaus a dwfn. Mae effaith yr argyfwng costau byw yn parhau i gael ei deimlo ar draws llawer o gymunedau, gan gyfrannu at ansicrwydd ariannol ac ehangu anghydraddoldebau. Mae'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn parhau'n uchel, yn aml yn cynyddu mewn graddfa a chymhlethdod, yn enwedig mewn meysydd fel tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r pwysau hyn yn cael eu gwaethygu gan effeithiau hirdymor cyni ariannol a'r pandemig, ochr yn ochr â brys cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur. Gyda'i gilydd, mae'r heriau hyn yn tynnu sylw at derfynau dulliau traddodiadol a'r angen i wneud pethau'n wahanol.

Thema gyson trwy gydol y flwyddyn oedd pwysigrwydd atal - ymyrryd yn gynharach, deall yr angen yn well, a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol canlyniadau gwael, yn hytrach nag ymateb dim ond pan fydd problemau wedi cymhlethu.

Er bod cynnydd wedi bod yn y maes hwn, mae'n amlwg y bydd angen dull gweithredu cryfach, mwy cydgysylltiedig ar draws sefydliadau, gwasanaethau a llefydd i gymryd camau pellach.

Mewn cydnabyddiaeth o hyn, mae'r BGC wedi cymryd camau i gryfhau'r ffordd y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys cytuno i fabwysiadu dull gweithredu Total Place. Mae hyn yn cynrychioli ffocws o'r newydd ar weithredu ar y cyd - defnyddio data a mewnwelediad yn fwy effeithiol, alinio adnoddau, a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf cymhleth a chostus y mae'r ddinas yn eu hwynebu. Trwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau a rennir, grwpiau blaenoriaeth a llefydd, nod y dull hwn yw gwella canlyniadau i ddinasyddion wrth wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael ar draws y system.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i weithredu o dan bwysau sylweddol, ac nid oes atebion syml i'r heriau sydd o'n blaenau. Fodd bynnag, eleni, atgyfnerthwyd cryfder gwaith partneriaeth yng Nghaerdydd ac ymrwymiad cyffredin sefydliadau i weithio ar y cyd er budd y ddinas. Gan adeiladu ar y sylfaen hon, bydd y BGC yn parhau i ddatblygu ei ddull gweithredu, gan sicrhau bod ymdrech ar y cyd yn canolbwyntio ar le y gall gael yr effaith fwyaf ar bobl a chymunedau Caerdydd.



**Cynghorydd Chris Weaver**
**Cadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd dros y 12 mis diwethaf i gyflawni ei Gynllun Lles Lleol 2023-28.

Ategir yr adroddiad blynyddol gan ddiweddariad manwl ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau BGC Caerdydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a amlinellir yn y Cynllun Lles (Atodiad A), yn ogystal â'r adroddiad 'Caerdydd yn 2026' (Atodiad B), sy'n darparu dadansoddiad tueddiadau o bob un o ddangosyddion lles y Cynllun.

## Beth yw BGC Caerdydd?

Mae BGC Caerdydd yn dod ag arweinwyr a phenderfynwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas ynghyd, gan gynnwys y rheini o'r Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r gwasanaethau Tân, Heddlu a Phrawf.  Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy gryfhau'r cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

## Beth yw Cynllun Lles?

Mae'r Cynllun Lles yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu ar gyfer 2023 i 2028.  Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae wir angen gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Felly, dylid ystyried y Cynllun Lles fel dogfen i ategu cynlluniau strategol pob aelod o'r BGC, gan ganolbwyntio ar sicrhau 'mantais gydweithredol' mewn rhannau o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â phob gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 'Amcanion Lles', meysydd gweithredu y mae BGC Caerdydd wedi'u nodi fel y rhai pwysicaf.  Mae hefyd yn cynnwys 'Blaenoriaethau', neu'r camau y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros bum mlynedd nesaf y cynllun.  Amcanion Lles BGC Caerdydd yw:

1. Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
2. Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
3. Cefnogi pobl allan o dlodi
4. Cymunedau diogel, hyderus a grymus
5. Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
6. Caerdydd Un Blaned
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

# Sut y caiff y Cynllun Lles ei gyflawni?

Mae cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Lles ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am weithredu ar draws sawl amserlen a lefel, o'r uniongyrchol a'r gweithredol, i'r hirdymor a'r strategol.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, cynhaliwyd adolygiad o lywodraethu partneriaeth ar ôl-troed rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn 2023, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni. Mae pob blaenoriaeth yn cyd-fynd â 'Bwrdd Cyflawni' perthnasol, gyda chysylltiad â BGC Caerdydd neu Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro.

Lle mae'r BPRh yn arwain ar oruchwylio a chyflawni blaenoriaethau partneriaeth (yn Amcanion Lles 1 a 2) nodir hyn yn glir.

# Sut y caiff cynnydd ei fesur?

Adroddir am y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r Cynllun Lles fel a ganlyn:

- Diweddariad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a nodwyd yn y Cynllun Lles, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac yn Atodiad A.
- Diweddariad am berfformiad y ddinas yn erbyn y dangosyddion canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Lles, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn[1] ac yn yr adroddiad Caerdydd yn 2026 (Atodiad B).

Mae'r data diweddaraf hefyd ar gael ar [Ddangosfwrdd Dinas-gyfan ar-lein Caerdydd]. Mae'r Dangosfwrdd yn dod â nifer o setiau data at ei gilydd, wedi'u grwpio yn ôl gwahanol themâu, i gyflwyno darlun o fywyd yng Nghaerdydd. Gellir gweld y data dros amser, a lle bo ar gael, ei gymharu ag ardaloedd eraill neu ei dorri i lawr i lefel is-Gaerdydd.

[1] O fewn pob Amcan Lles, cyflwynir y data diweddaraf sydd ar gael yn erbyn pob dangosydd canlyniad lefel dinas, ynghyd â'r dyddiad y mae'r data'n ymwneud ag ef. Gan fod data'n dod o ystod o setiau data, mae'r cyfnod adrodd yn amrywio rhwng dangosyddion. Yn ogystal, nodir data cymharol diweddar, yn ogystal â gwreichlin i gynrychioli tueddiadau'r data. Mae'n bwysig nodi bod yr amserlen a ddefnyddir ar gyfer y wreichlin yn amrywio ar gyfer pob dangosydd canlyniad, tra bod yr echelin fertigol bob amser yn dechrau ar sero. Mae asesiad cryno hefyd wedi'i gynnwys i dynnu sylw at y negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r data. I gael rhagor o fanylion, gweler yr adroddiad 'Caerdydd yn 2026' sy'n rhoi dadansoddiad manwl o dueddiadau.



# Dangosyddion Canlyniadau Lefel Dinas: Trosolwg

Mae Caerdydd yn parhau i esblygu fel prifddinas ddeinamig, amrywiol sy'n tyfu. Mae'r amcangyfrif diweddaraf o'r boblogaeth yn dangos bod 383,900 o bobl yn byw yng Nghaerdydd, cynnydd o tua 87,000 ers 1991. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y bydd poblogaeth y ddinas yn parhau i dyfu i oddeutu 413,000 erbyn 2034, er ar gyfradd arafach na'r blynyddoedd diwethaf. Ar yr un pryd, mae poblogaeth Caerdydd yn dod yn hŷn ac yn fwyfwy amrywiol, ac amcanestynnir y bydd nifer y preswylwyr 65 oed a throsodd yn cynyddu gan tua 10,500 dros y ddegawd nesaf. Bydd y newidiadau demograffig hyn yn parhau i lunio'r galw am wasanaethau ac yn dylanwadu ar les ledled y ddinas.

Ar draws ystod o fesurau, mae canlyniadau'n cymharu'n ffafriol â Chymru ac mae arwyddion o newid cadarnhaol mewn nifer o feysydd. Mae cyfran y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel wedi gostwng o 20.3% i 19.6% cyn costau tai, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 32% o oedolion yn gwirfoddoli, mae teithio cynaliadwy wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed ar 56.9%, ac mae allyriadau carbon y pen yn parhau i fod yn is na'r lefelau a gofnodwyd yn flaenorol ar 3.8 tunnell. Er bod y gwelliannau hyn yn amrywio o ran graddfa a chyflymder, maent yn awgrymu bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud ar draws sawl agwedd ar les yng Nghaerdydd.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at nifer o heriau sylweddol. Mae lles personol yn is na'r lefelau a gofnodwyd yn flaenorol, gyda llai o bobl yn adrodd lefelau uchel o foddhad bywyd, hapusrwydd ac ymdeimlad fod y pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil, ochr yn ochr â lefelau cynyddol o orbryder. Mae disgwyliad oes iach wedi gostwng i 60.1 mlynedd i wrywod a 59.5 mlynedd i fenywod, tra bod 15% o bobl yn byw mewn aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol. Mae nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd hefyd wedi codi o 21 i 40 dros y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at effaith barhaus tlodi, ansicrwydd ariannol a phwysau tai ar lawer o drigolion.


Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod Caerdydd yn parhau i wneud cynnydd mewn sawl agwedd ar les, ond nad yw'r cynnydd hwn bob amser yn cael ei brofi'n gyfartal. Mae gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng cymunedau a grwpiau poblogaeth yn parhau i fod yn amlwg ar draws ystod o fesurau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a lles. Er bod y gwahaniaethau hyn yn hirsefydlog, maent yn parhau i siapio cyfleoedd a phrofiadau bywyd ledled y ddinas ac yn parhau i fod yn her allweddol i bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus.

Amcan Lles 1

# Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael Eich Magu

# Cyflwyniad

Mae Caerdydd yn parhau i gynnig dechrau cadarnhaol mewn bywyd i lawer o blant a phobl ifanc, gydag ystod eang o gyfleoedd i dyfu, dysgu a llwyddo. Fodd bynnag, mae effeithiau parhaol y pandemig, pwysau costau byw cynyddol a lefelau cynyddol o angen yn parhau i lywio profiadau plant a theuluoedd ledled y ddinas. Mae anghydraddoldebau yn parhau, gyda rhai plant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau sy'n effeithio ar eu lles, eu datblygiad a'u cyfleoedd bywyd.




Mewn ymateb, mae partneriaid ar draws BGC Caerdydd yn gweithio gyda'i gilydd i leihau'r anghydraddoldebau hyn trwy ffocws cryf ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ochr yn ochr â dulliau cefnogi mwy cydgysylltiedig, mwy cynhwysol sy'n ystyriol o drawma. Nod y dull cyffredin hwn yw sicrhau bod gwasanaethau'n gydlynol, yn hygyrch ac yn ymatebol i'r angen.

Gyda'i gilydd, nod y partneriaid yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi, ac y gallant ffynnu.



# Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y plant mewn teuluoedd incwm isel | Incwm Isel Cymharol (Cyn Costau Tai) | 2024/25 | 19.6 % | 20.3 % (2023/24) |  |
| | Incwm Isel Cymharol (Ar Ôl Costau Tai) | | 26.8 % | 28.3 % (2023/24) |  |
| | Incwm Isel Absoliwt (Cyn Costau Tai) | | 19.6 % | 22.2 % (2023/24) |  |
| Lles meddyliol: plant a phobl ifanc ac oedolion | Sgôr Cymedrig (11-16 oed) | 2023 | 23.8 | 23.3 (2021) |  |
| | Cyfartaledd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (Oedolion) | 2022/23 | 48.8 | *Ddim ar gael ar hyn o bryd. Nid yw'r data diweddaraf yn gymharol â blynyddoedd blaenorol.* | |
| Canran y plant 4 i 5 oed sydd â phwysau iach (neu dan bwysau) | | 2024/25 | 76.6 % | 79.5 % (2023/24) |  |
| Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n gorfforol weithgar am fwy na 60 munud ar lai na 3 diwrnod yr wythnos yn ôl sgôr cyfoeth teulu[2] | | 2023 | 19 | 18 (2021) |  |
| Canran y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol[3] | | 2024 | 59.1 % | 58.6 % (2023) |  |
| Canran y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela) | | 2024/25 | 83.2 % | 80.9 % (2023/24) |  |
| Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n smygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd | | 2023 | 2.1 % | 1.8 % (2021) |  |
| Canran y rheini sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | Blwyddyn 11 | 2025 | 1.8 % | 2.9 % (2024) |  |
| | Blwyddyn13 | | 3.9 % | 3.1 % (2024) |  |
| Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf | | 2025 | 38 | 34 (2024) |  |

[2] Y Gwahaniaeth Pwynt Canran rhwng Teuluoedd Mwy Cefnog a Theuluoedd Llai Cefnog

[3] Sylwer: Cyn 2024, Cyngor Caerdydd oedd yn gyfrifol am gasglu'r data hwn. Ers hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi cymryd cyfrifoldeb am gasglu data. Mae methodoleg arolwg ICC ychydig yn wahanol i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Gyngor Caerdydd, yn ogystal â maint eu sampl.

# Beth mae'r Data yn ei Ddangos

Ar y cyfan, mae'r data'n cyflwyno darlun cymysg ond cyffredinol gadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd. Bu gwelliannau mewn nifer o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys gostyngiadau mewn mesurau tlodi plant a chyfraddau NEET Blwyddyn 11 is, tra bod lles meddyliol yn parhau i fod yn well na chyfartaledd Cymru. Mae Caerdydd hefyd yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys canlyniadau cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn gyson ar draws pob dangosydd; er yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, gostyngodd cyfran y plant 4-5 oed sydd o bwysau iach (neu dan bwysau) yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae NEET Blwyddyn 13 wedi cynyddu ac mae cyfraddau brechu yn parhau i fod yn is na'r lefelau targed er gwaethaf y gwelliannau diweddar. Mae anghydraddoldebau sylweddol hefyd yn parhau i siapio canlyniadau, gyda llawer o'r heriau mwyaf wedi'u canolbwyntio yn ardaloedd mwy difreintiedig y ddinas, gan gynnwys tlodi plant, pwysau iach, gweithgarwch corfforol, cyfraddau brechu a chanlyniadau cyflogaeth ieuenctid.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2025/26

## Dinas sy'n Dda i Blant

Ym mis Hydref 2023, daeth Caerdydd y ddinas gyntaf yn y DU i gael ei chydnabod yn ffurfiol fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF, sy'n adlewyrchu ymrwymiad hirdymor gan bartneriaid BGC ers ymuno â'r rhaglen yn 2017. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni drwy Gynllun Cynaliadwyedd Dinas sy'n Dda i Blant 2023-2026, sy'n canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth: gwella dealltwriaeth plant o'u hawliau, cryfhau cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau, cynnwys plant wrth ddylunio llefydd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Yn ystod 2025/26, cwblhaodd Caerdydd broses ailachredu UNICEF UK yn llwyddiannus ac mae wedi cadw ei statws, gan ddod y ddinas gyntaf yn y DU i gael ei hailachredu. Mae hyn yn cydnabod ymrwymiad parhaus partneriaid i ymgorffori hawliau plant ar draws polisi, ymarfer a chynllunio, a rôl ganolog plant a phobl ifanc wrth lunio ac adolygu cynnydd.

Mae cynnydd wedi parhau ar draws pob un o'r pedair blaenoriaeth.  Mae addysg hawliau plant yn parhau i fod yn gryf, gydag 82.8 % o ysgolion yn cyflawni statws Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, ochr yn ochr â hyfforddiant parhaus i staff ar draws gwasanaethau. Mae cyfranogiad yn cael ei ymgorffori fwyfwy, gyda phlant a phobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau trwy fforymau sefydlegig fel Cyngor Ieuenctid Caerdydd a thrwy weithgareddau ymgysylltu ehangach.

Mae plant a phobl ifanc hefyd yn helpu i siapio amgylchedd ffisegol Caerdydd, gan gyfrannu at gynllunio, chwarae a dylunio mannau cyhoeddus i gefnogi cymunedau mwy cynhwysol a chyfeillgar i blant. Mae gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn parhau, gyda ffocws ar sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, wedi'i gynnwys ac y gall gael mynediad at gyfleoedd, yn enwedig y rhai a allai wynebu rhwystrau ychwanegol.

Mae ailachrediad Caerdydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cam nesaf y rhaglen. Mae Cynllun Cynaliadwyedd Dinas sy'n Dda i Blant diwygiedig ar gyfer 2026-2029 wedi'i ddatblygu, sy'n nodi sut y bydd partneriaid yn adeiladu ar gynnydd hyd yma trwy ymgorffori hawliau plant ymhellach ar draws gwasanaethau, cryfhau cyfranogiad, a pharhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

## Addewid Caerdydd

Mae Addewid Caerdydd yn parhau i gynnig mynediad i blant a phobl ifanc at wybodaeth, sgiliau, profiadau a llwybrau i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth drwy bartneriaeth gref o gyflogwyr, darparwyr addysg a gwasanaethau cyhoeddus ledled y ddinas. Mae dros 500 o gyflogwyr bellach yn ymgysylltu'n weithredol, gan adlewyrchu twf a chyrhaeddiad parhaus.

Yn ystod 2025/26, mae'r cynnydd wedi canolbwyntio ar ehangu cyfleoedd a chryfhau'r ddarpariaeth gyffredinol. Cafodd mwy na 3,000 o gyfleoedd ôl-16 eu hyrwyddo drwy'r platfform Beth Nesaf Caerdydd, tra bod y Wobr Beth Nesaf? wedi cefnogi dros 200 o ddysgwyr i gael mynediad at brofiad gwaith ystyrlon. Mae ymgysylltu ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd hefyd yn parhau ar raddfa eang, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o lwybrau ar gyfer y dyfodol a meithrin sgiliau, hyder a dyheadau.

Mae pwyslais cynyddol wedi bod ar wella cynhwysiant. Mae cymorth wedi'i dargedu wedi'i ddatblygu ar gyfer dysgwyr a allai wynebu rhwystrau ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae cyflogwyr hefyd wedi cael eu cefnogi drwy hyfforddiant i ddeall ac ymateb i'r anghenion hyn yn well, gan gyfrannu at gyfleoedd mwy cynhwysol ar draws y rhwydwaith.

Mae Addewid Caerdydd yn parhau i gael ei gydnabod fel model o arfer da, sy'n dangos gwerth gwaith partneriaeth cydgysylltiedig wrth gefnogi cynnydd pobl ifanc. Fodd bynnag, wrth i'r rhaglen ehangu, mae hefyd wedi tynnu sylw at heriau parhaus o ran sicrhau bod cyfleoedd yn gyson hygyrch, gydlynol ac ymatebol i anghenion amrywiol pob person ifanc.

Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am ffocws parhaus ar gryfhau cydlyniad ar draws partneriaid, ehangu mynediad at brofiadau o ansawdd uchel, a sicrhau bod y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf yn gallu elwa'n llawn o'r cyfleoedd sydd ar gael. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd Addewid Caerdydd yn parhau i flaenoriaethu ymgysylltu â chyflogwyr, mynediad at brofiad gwaith ystyrlon, llwybrau cliriach i ddysgu a chyflogaeth, a chymorth wedi'i dargedu i wella canlyniadau i bob dysgwr.

## Iechyd a Lles

Mae cefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i bartneriaid ledled Caerdydd, gyda gweithgarwch yn ystod 2025/26 yn adlewyrchu ffocws parhaus ar ymyrraeth gynnar ochr yn ochr â phwysau ehangach ar y system sy'n deillio o'r galw, anghydraddoldeb a chydlyniad ar draws gwasanaethau.

Mae ystod o raglenni a mentrau targedig[4] ar waith i fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol:

- **Blynyddoedd cynnar (1,000 diwrnod cyntaf):** Mae plentyndod cynnar yn parhau i fod yn gyfnod tyngedfennol sy'n siapio iechyd a lles gydol oes, fel yr amlygwyd yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2024/25, a oedd yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant 0-5 oed. Gan adeiladu ar hyn, mae gwaith blynyddoedd cynnar yn cael ei ddatblygu ar y cyd drwy raglen Dechrau'n Dda y BPRh, gyda mwy o ffocws ar 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn. Yn ystod 2025/26, mae hyn wedi cynnwys datblygu dealltwriaeth gyffredin o anghenion y boblogaeth a symud ymlaen tuag at fodel o newid a rennir. Mae partneriaid wedi'u halinio fwyfwy o ran meysydd blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys parodrwydd ysgolion, cymorth rhianta, atal cam-drin domestig, datblygu iaith a lleferydd, dulliau cymunedol a'r defnydd o ddata. Mae'r camau nesaf yn cynnwys cyd-gynhyrchu gweledigaeth ranbarthol ar gyfer y 1,000 diwrnod cyntaf, ochr yn ochr â datblygu trefniadau darparu ymhellach a set ddata sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gefnogi gweithredu a monitro dros amser.
- **Gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl:** Mae ystod o ddarpariaeth wedi'i thargedu yn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi trallod seicolegol acíwt, gyda gwasanaethau'n gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig ac yn gynyddol ystyriol o drawma. Mae'r Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc (CAPI) wedi darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i dros 30 o deuluoedd yn ystod 2025/26, gyda 34 o blant yn cael eu cefnogi i aros yn yr uned deuluol, tra bod Goleudy wedi darparu ymyriadau amlddisgyblaethol, cofleidiol sy'n cyfuno mewnbwn therapiwtig, cymorth addysgol a llety â chymorth i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae cymorth therapiwtig i blant mabwysiedig a phlant sy'n derbyn gofal hefyd wedi'i ddarparu drwy wasanaeth Enfys, ochr yn ochr â chymorth ehangach i deuluoedd ac ymyrraeth gynnar trwy sefydliadau fel Family Lives. Mae'r ystod hon o ddarpariaeth yn adlewyrchu ymateb amlasiantaethol cryf, tra bod y galw parhaus am gymorth yn parhau i achosi pwysau ar draws gwasanaethau ac yn tanlinellu pwysigrwydd cryfhau ymyrraeth gynharach.
- **Gwella'r nifer sy'n derbyn brechiad yn ystod plentyndod:** Mae'r nifer sy'n derbyn imiwneiddiadau yn ystod plentyndod a'r arddegau yng Nghaerdydd yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, gyda chyfraddau is yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gan dynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd ac ethnigrwydd. Yn ystod 2025/26, mae camau targedig wedi canolbwyntio ar wella mynediad a mynd i'r afael â rhwystrau, gan gynnwys darpariaeth mewn ysgolion, cyflwyno brechlynnau ffliw di-gelatin, a rhaglen dal-i-fyny MMR beilot mewn ysgolion uwchradd gyda chefnogaeth cyfathrebu wedi'i deilwra

[4] Sylwch fod diweddariad ynglŷn â'r rhaglen Bwyd Da a Symud (Symud Mwy, Bwyta'n Iach gynt), yn ogystal â gwaith i leihau ysmygu, i'w weld yn Amcan Lles 3: Cefnogi Pobl Allan o Dlodi.

a deunyddiau wedi'u cyfieithu, gan arwain at 12.5 % o'r disgyblion a nodwyd yn derbyn un neu'r ddau ddos. Mae dull cymunedol wedi'i dargedu hefyd wedi'i ddatblygu yng Nghlwstwr Gofal Sylfaenol Canol y Ddinas a'r De, lle mae'r cyfraddau isaf, gan gynnwys ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol a'r sector gwirfoddol mewn ardaloedd fel Grangetown a Butetown i gefnogi clinigau a gwella cyfathrebu â theuluoedd. Cefnogir y gwaith hwn drwy ddatblygu Cynllun Gweithredu Strategol Imiwneiddiadau yn Ystod Plentyndod a'r Arddegau (2026-2029) ac adnewyddu'r Cynllun Strategol Brechu Teg. Er bod arwyddion o welliant mewn gweithgarwch wedi'i dargedu, mae'r cyfraddau cyffredinol yn parhau i fod yn is na'r lefelau targed, sy'n dangos yr angen am ffocws partneriaeth parhaus i wella cyrhaeddiad a lleihau anghydraddoldebau.

- **Cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth:** Mae partneriaid yn parhau i gryfhau dull gweithredu mwy cydgysylltiedig, amlasiantaethol o gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth sy'n cyd-ddigwydd drwy raglen Dechrau'n Dda y BPRh. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r rhaglen Cynllunio ar gyfer Fy Nyfodol i gefnogi pontio mwy effeithiol i oedolaeth, ochr yn ochr â datblygiad parhaus Gwasanaethau Anableddau Dysgu Plant a gweithgareddau atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Wrth edrych tua'r dyfodol, mae blaenoriaethau'n cynnwys cryfhau llywodraethu amlasiantaethol i gefnogi gweithrediad diwygiadau ADY a gwella dealltwriaeth gyffredin o angen, gan gynnwys priodoldeb lleoliadau gwaith ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth iawn. Er bod cynnydd yn amlwg wrth ddatblygu dulliau mwy integredig, mae graddfa a chymhlethdod yr angen yn parhau i achosi pwysau wrth sicrhau cefnogaeth gyson ac amserol ar draws gwasanaethau.

## Cyfiawnder Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Caerdydd wedi gorffen gweithio ar ei Strategaeth Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd (2022-24) a oedd yn canolbwyntio ar bedwar maes: gweithio gyda phlant, teuluoedd a phartneriaid; dadansoddi a newid systemau; dewisiadau gwell, lleoedd mwy diogel; a llywodraethu ac arweinyddiaeth. Cadarnhaodd adolygiad ym mis Ebrill 2025 gynnydd cryf ym mhob maes, gyda'r rhan fwyaf o weithgarwch bellach wedi'i ymgorffori o fewn gwasanaethau craidd ac yn cael ei fonitro drwy'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol statudol. Mae adborth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi parhau i fod yn gyson gadarnhaol.

Mae'r GCI yn parhau i weithio mewn partneriaeth i atal a lleihau troseddau gan blant a phobl ifanc, gyda chefnogaeth llywodraethu cryf trwy ei Fwrdd Rheoli amlasiantaethol. Mae mesurau allweddol, gan gynnwys unigolion sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth am y tro cyntaf, lefelau aildroseddu a chadw yn y ddalfa, yn parhau i fod yn isel, sy'n adlewyrchu cymhwysiad parhaus dull gweithredu sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o drawma ar draws y system.

Yn ystod 2025/26, mae gweithgarwch partneriaeth wedi parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â chamfanteisio a thrais difrifol. Mae hyn yn cynnwys gwaith parhaus drwy'r bartneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, ochr yn ochr â chydweithio â'r Uned Atal a Lleihau Trais, i ddatblygu Hyb SAFE Rhithwir ac alinio â'r llwybr Risg y Tu Allan i'r Cartref sy'n cael ei weithredu trwy'r Gwasanaethau Plant. Ar yr un pryd, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi gweithrediad fframwaith Datrysiad y Tu Allan i'r Llys De Cymru ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda Heddlu De Cymru mewn perthynas â throseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll.

Ochr yn ochr â hyn, mae Strategaeth Caerdydd Ddi-Drais 2025-2028 wedi'i chyhoeddi, gan gynnwys cyflwyno canllaw Arfau mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysgol (AMYLIA). Mae hyn yn cynnig dull cyson o reoli risg mewn ysgolion ac yn cael ei gefnogi gan Arweinwyr Atal Trais a rhwydwaith cydlynol, gyda chanllawiau pellach yn cael eu datblygu ar gyfer lleoliadau ieuenctid a llety â chymorth ehangach.

## Plant a Theuluoedd

Mae Caerdydd yn parhau i gryfhau ei dull o gefnogi plant a theuluoedd, gan ganolbwyntio ar adnabod yn gynnar, atal a chymorth amlasiantaethol cydgysylltiedig, yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl o Brofiadau Plentyndod Niweidiol (PPNau).

Yn ystod 2025/26, mae'r Hyb Cyngor, Cymorth a Diogelwch Teuluoedd (HCCDT) wedi cael ei sefydlu ymhellach fel drws ffrynt integredig y ddinas ar gyfer pryderon cymorth cynnar a diogelu. Trwy ddod â gwasanaethau at ei gilydd mewn un pwynt cyswllt, mae HCCDT yn gwella trefniadau rhannu gwybodaeth, yn cefnogi penderfyniadau mwy cyson ac yn galluogi teuluoedd i gael y gefnogaeth gywir yn gynharach.

Mae Cymorth Cynnar lleol hefyd wedi parhau i ddatblygu. Mae'r model hwn yn gosod gweithwyr Cymorth Cynnar

yn uniongyrchol o fewn ysgolion, gan wneud cymorth yn fwy hygyrch i deuluoedd a galluogi pryderon i gael eu nodi'n gynharach. Gan adeiladu ar y ddarpariaeth yn ysgolion clwstwr Treláí a Chaerau, mae'r model wedi ehangu i ysgolion yn Grangetown, gan helpu i gyrraedd ystod ehangach o deuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n llai tebygol o ymgysylltu trwy lwybrau atgyfeirio traddodiadol.

Mae'r Prosiect Ymyrraeth Gynnar Gofal Sylfaenol wedi datblygu, gan feithrin cysylltiadau agosach rhwng practisau meddygon teulu a gwasanaethau Cymorth Cynnar. Mae hyn yn galluogi meddygon teulu i atgyfeirio teuluoedd sy'n ymgyflwyno â phroblemau anfeddygol, fel tai, rhianta neu bryderon lles emosiynol, yn uniongyrchol at gefnogaeth. Mae rôl newydd sy'n canolbwyntio ar blant ag anableddau a niwrowahaniaeth hefyd yn cael ei datblygu i gryfhau trefniadau adnabod yn gynnar a gwella mynediad at wasanaethau priodol.

Mae ffocws parhaus ar ymyrraeth gynnar wedi'i adlewyrchu mewn cymorth a arweinir gan seicoleg ar draws y 1,000 diwrnod cyntaf mewn bywyd plentyn, gan gynnwys canllawiau i ymarferwyr, hyfforddiant mewn ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymarfer perthynol, a chynllunio amlasiantaethol ar gyfer teuluoedd mewn perygl. Ategir hyn gan adnoddau fel y Canllaw Rhieni Osgoi'r Ysgol ar Sail Gorbryder (OYSG), sy'n cefnogi rhieni i ymateb i blant sy'n profi anawsterau wrth fynychu'r ysgol. Mae'r cynnig ehangach i deuluoedd hefyd wedi ehangu, gan gynnwys cefnogaeth i'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol a chydlyniad cryfach rhwng gwasanaethau'r cyngor, iechyd a'r trydydd sector.

## Cefnogi Gofalwyr Di-dâl

Mae Rhaglen Gofalwyr Di-dâl y BPRh wedi parhau i wneud cynnydd yn 2025/26 o ran nodi, cydnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl ledled y rhanbarth.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth gwelliannau o ran adnabod a chynnig mynediad at gymorth arwain at 487 o ofalwyr di-dâl newydd yn cael eu nodi ledled y rhanbarth, ochr yn ochr â 53 o ofalwyr ifanc newydd, gyda 126 o amcanion personol wedi'u cytuno i adlewyrchu eu hanghenion a'u blaenoriaethau. Gwnaeth gwaith i adnabod gofalwyr ifanc mewn ysgolion hefyd barhau'n gyson, gyda chyfartaledd o 158 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a 435 mewn ysgolion uwchradd yn cael eu nodi bob chwarter. Yng Nghaerdydd, cwblhawyd 686 o asesiadau gofalwyr ac, erbyn diwedd Chwarter 4, roedd 5,678 o ofalwyr wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor.

Mae cymorth i ofalwyr wedi parhau i gael ei gynnig drwy ystod o wasanaethau, gan gynnwys mynediad at seibiannau byr, gyda 2,179 o ofalwyr yn elwa o'r ddarpariaeth drwy sefydliadau trydydd sector. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u cynllunio i roi seibiant rhag cyfrifoldebau gofalu a chefnogi gofalwyr i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Mae cynnydd hefyd wedi cynnwys parhau i weithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu. Datblygwyd y trydydd Cynulliad Gofalwyr Di-dâl blynyddol gyda gofalwyr a rhanddeiliaid, gan roi cyfle i gydnabod cyfraniad gofalwyr di-dâl a sicrhau bod eu profiadau'n llywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol. Cyfrannodd arweinwyr rhaglenni hefyd at ddysgu cenedlaethol drwy ymgysylltu ag ymchwiliad y Senedd i gefnogaeth i ofalwyr di-dâl, ochr yn ochr â gwaith ehangach i adolygu a chryfhau prosesau asesu gofalwyr.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd y rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau allgymorth, codi ymwybyddiaeth, a gwella mynediad teg at gymorth, gan sicrhau bod mwy o bobl yn cydnabod eu rôl ofalu ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau a seibiant priodol.






Amcan Lles 2

# Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn

# Cyflwyniad

Mae poblogaeth Caerdydd, fel poblogaeth gweddill Cymru, yn parhau i heneiddio, gan arwain at alw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad hanfodol at economi, cymunedau a bywyd diwylliannol y ddinas. Fodd bynnag, mae'r newid demograffig hwn hefyd yn dod â heriau, yn enwedig wrth sicrhau y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion cynyddol a mwy cymhleth.

Drwy weithio mewn partneriaeth, nod BGC Caerdydd yw gwneud Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn: dinas sy'n dathlu heneiddio, yn gwerthfawrogi ac yn grymuso pobl hŷn, ac yn darparu cymorth cydlynol o ansawdd uchel. Yr uchelgais gyffredin yw cefnogi pobl i aros yn iach, aros yn annibynnol cyn hired â phosibl, a pharhau i gymryd rhan lawn mewn bywyd cymunedol.






# Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl 65 oed a hŷn sy'n nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda | 2021/22-2022/23 | 66.7 % | *Ffigur ddim yn gymharol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg* | |
| Canran y bobl 65 oed a hŷn sydd â phwysau iach | 2021/22-2022/23 | 39.9 % | *Ffigur ddim yn gymharol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg* | |
| Canran y bobl 65 oed a hŷn sy'n nodi eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth | 2019-20 | 78.9 % | 78.4 % (2018-19) |  |
| Canran y bobl 65 oed a hŷn sy'n nodi eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo angen | 2019-20 | 77.7 % | 80.2 % (2018-19) |  |
| Canran yr oedolion 65 oed a hŷn sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw | 2019-20 | 86.7 % | 86.2 % (2018-19) |  |
| Canran y bobl 65 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn unig | 2019-20 | 84.8 % | 86.0 % (2018-19) |  |
| Bodlonrwydd pobl hŷn ar fywyd[5] | 2021/22-2022/23 | 82.8 % | *Ffigur ddim yn gymharol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg* | |

[5] Canran y bobl hŷn (65 oed a hŷn) sy'n rhoi sgôr o 7 neu uwch allan o 10 ar gyfer boddhad bywyd.

# Beth mae'r Data yn ei Ddangos

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu darlun cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn yng Nghaerdydd, er bod y dystiolaeth sydd ar gael wedi'i chyfyngu gan oedran rhai dangosyddion a newidiadau mewn methodoleg sy'n cyfyngu ar gymariaethau dros amser. Mae llawer o bobl hŷn yn adrodd lefelau da o iechyd a lles, gyda mwy na phedwar o bob pump yn adrodd lefelau uchel o foddhad bywyd, ochr yn ochr â chanfyddiadau cadarnhaol o'u hiechyd cyffredinol a'u boddhad gyda'u trefniadau tai, gofal a chymorth. Fodd bynnag, dim ond tua dau o bob pum person hŷn sydd o bwysau iach yn ôl yr adroddiadau.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2025/26

## Sefydlu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Integredig, Lleol

Mae rhaglen Heneiddio'n Dda y BPRh, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu System Gofal Cymunedol Integredig (@Gartref gynt), yn parhau i yrru'r newid tuag at wasanaethau iechyd a gofal integredig lleol ledled Caerdydd a'r Fro. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Cymru Iachach a rhaglenni cenedlaethol eraill, gan ddod â blaenoriaethau ynghyd ar draws gofal sylfaenol, gofal brys, capasiti cymunedol a dulliau gweithredu oed-gyfeillgar.

Yn ystod 2025/26, cefnogwyd cynnydd gan waith partneriaeth ac aliniad systemau cryfach, gan gynnwys uwchgynhadledd rhaglen-gyfan ym mis Mawrth 2026 a ddaeth â dros 100 o arweinwyr o bob sefydliad at ei gilydd i adolygu darpariaeth a gosod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Mae modelau gofal integredig yn parhau i ddatblygu ar draws y rhanbarth, gyda Diogel yn y Cartref yn cefnogi 853 o bobl yn ystod y flwyddyn, gan helpu 673 o bobl i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty a chyfrannu at arbed bron i 10,000 o ddiwrnodau gwely. Gwnaeth un pwynt mynediad ymdrin â dros 106,000 o gysylltiadau, gyda 68 % o'r anghenion wedi'u diwallu heb uwchgyfeirio at ofal cymdeithasol, gan ddangos manteision ymyrraeth gynharach ac ymatebion cydgysylltiedig.

Mae gwaith tîm amlddisgyblaethol bellach yn cael ei gyflwyno ar draws pob un o'r naw clwstwr meddyg teulu, gyda dros 24,500 o bobl yn cael eu cefnogi trwy ddulliau gofal rhagweithiol. Mae hyn yn cael ei ategu gan ddarpariaeth gymunedol gryfach, gan gynnwys manyleb gwasanaeth nyrsio cymunedol newydd a mynediad cyffredinol at bresgripsiynu cymdeithasol ar draws pob un o'r 55 practis meddyg teulu, gan gefnogi dros 1,300 o bobl. Mae cydweithio rhwng BIPCaF, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a gwasanaethau awdurdodau lleol hefyd wedi gwella amseroedd ymateb a chryfhau gweithgarwch atal, yn enwedig mewn perthynas â chwympiadau. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio data Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol i nodi unigolion mewn risg uwch yn gynharach, ochr yn ochr â darparu ymyriadau wedi'u targedu fel rhaglenni cryfder, cydbwysedd a lles.

Mae yna gynlluniau i ddarparu 12 cynllun tai arbenigol newydd sydd wedi'u cynllunio i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn hirach. Bydd y datblygiadau hyn yn darparu cyfleusterau cymunedol, gofal a chymorth wedi'u teilwra, ac yn galluogi preswylwyr i ddod o hyd i dŷ o'r 'maint cywir'. Mae un cynllun ar Heol Lecwydd eisoes wedi'i gwblhau, gan ddarparu 41 o fflatiau, tra bod disgwyl i un arall ar Stryd Bute, sy'n cynnwys 45 o fflatiau, gael ei gwblhau yn haf 2026. Ochr yn ochr â hyn, mae model newydd o dai gyda gofal integredig yn cael ei ddatblygu, gyda Llys y Goetre ar fin agor, gyda 10 fflat ochr yn ochr â thîm nyrsio ardal ar y safle i ddarparu cymorth lefel uwch i breswylwyr.

Ochr yn ochr â hyn, mae partneriaid yn parhau i gryfhau dulliau integredig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a niwrowahaniaeth. Mae hyn yn cynnwys gwaith i wella cyfraddau defnydd Gwiriadau Iechyd Blynyddol, gyda chefnogaeth buddsoddiad yn yr ymgyrch GetCheckedOut.org genedlaethol ac ymgysylltu cydlynol â gofal sylfaenol. Mae Shine Together, rhwydwaith anabledd dysgu newydd a gydgynhyrchwyd, hefyd wedi'i ddatblygu, ochr yn ochr â sefydlu Bwrdd Strategol Niwrowahaniaeth i oruchwylio gwelliannau system gyfan a gweithredu'r Cod Ymarfer Awtistiaeth.

## Gweithio Tuag at Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

Cyflwynodd Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn raglen waith gref yn ystod 2025/26, yn alinio â Chynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn 2024-2028, gyda ffocws parhaus ar atal, lleihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i bobl hŷn.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran herio oedraniaeth trwy hyrwyddo cyfathrebu sy'n gynhwysol o ran oedran a chodi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor a sefydliadau partner. Gwnaeth ymgyrchoedd targedig hefyd gefnogi iechyd, lles a gwytnwch ariannol, gan gynnwys hyrwyddo Credyd Pensiwn, Pŵer Atwrnai, diogelwch tân a negeseuon iechyd tymhorol.

Parhaodd gweithgarwch atal iechyd i ehangu, gan gynnwys datblygu adnoddau atal dementia ac animeiddiadau cysylltiedig mewn ieithoedd cymunedol i wella hygyrchedd. Mae'r Cynllun Benthyciadau Monitro Pwysedd Gwaed hefyd wedi parhau i dyfu, gan ragori ar 1,200 o fenthyciadau erbyn diwedd y flwyddyn, gyda chefnogaeth deunyddiau atgyfeirio wedi'u cyfieithu ac ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol. Yn ogystal, cyflwynwyd ymgyrch iechyd rhywiol newydd ar gyfer pobl hŷn mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau stigma a chodi ymwybyddiaeth mewn ymateb i gyfraddau cynyddol o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Cynyddodd y gefnogaeth i ofalwyr di-dâl drwy ddatblygu llawlyfr pontio gofalwyr newydd, wedi'i lunio drwy ymgysylltu â gofalwyr a phartneriaid, sydd i'w gyhoeddi yn 2026/27.

Parhaodd Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn hefyd i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn llywio cynllun gwasanaethau drwy weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu, gan gynnwys gwaith ar y Strategaeth Heneiddio'n Dda ac ymgynghoriadau cenedlaethol.

Mae'r ddarpariaeth yn parhau i gael ei hategu gan bartneriaeth gref ledled y ddinas sy'n cynnwys y Cyngor, BIPCaF, y gwasanaethau brys a'r trydydd sector. Mae Caerdydd hefyd yn parhau i fod yn weithgar o fewn Rhwydwaith Byd-eang Dinasoedd Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, gan rannu dysgu lleol ac arfer da yn rhyngwladol.

Er bod cynnydd yn parhau, mae cynyddu defnydd o'r Addewid Cyflogwr Oed-gyfeillgar yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol i gryfhau cyfleoedd cyflogaeth cynhwysol o ran oedran ledled y ddinas.

## Gweithio Tuag at Ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia

Mae Rhaglen Dementia'r BPRh yn parhau i yrru dull cydweithredol ledled y rhanbarth at wella iechyd yr ymennydd a gofal dementia, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod 2025/26.

Mae blaenoriaethau strategol yn dal i ganolbwyntio ar ddiagnosis cynnar, ymgysylltu cynhwysol, a chydgynhyrchu gyda phobl â phrofiad bywyd. Mae'r rhaglen yn cael ei chydnabod fwyfwy ar lefel genedlaethol, gyda gwaith diweddar yn cael ei gyhoeddi yn y Journal of Dementia Care a thrwy Brosiect Enghreifftiol Bevan.

Mae cynnydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys parhau i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu ac ymwybyddiaeth cynhwysol, gyda dros 1,100 o gysylltiadau wedi'u gwneud trwy 19 o ddigwyddiadau Agor Drysau i Ymarfer yr Ymennydd a gydgynhyrchwyd ers mis Awst 2023, yn enwedig cyrraedd cymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. Mae diagnosis cynnar yn parhau i fod yn gryfder allweddol, gyda 67 % o bobl sy'n cael diagnosis trwy Glinigau Asesu'r Cof gofal sylfaenol wedi'u nodi ar y cam cynharaf, gan gefnogi cynllunio ac ymyrraeth amserol. Mae Gweithwyr Cyswllt Asesu'r Cof hefyd wedi parhau i chwarae rôl allweddol, gan wneud dros 5,000 o gysylltiadau a chefnogi bron i 3,800 o atgyfeiriadau at wasanaethau priodol.

Mae'r gwaith i adeiladu cymunedau sy'n deall dementia hefyd wedi symud ymlaen, gyda 190 o sefydliadau ychwanegol yn ymrwymo i ddod yn sefydliadau sy'n Deall Dementia a dros 2,700 o bobl yn gwella eu dealltwriaeth o ddementia. Mae adnoddau iechyd yr ymennydd a lleihau risg diwygiedig wedi'u dosbarthu'n eang ar draws y rhanbarth, gan gefnogi mwy o ffocws ar atal.

Mae profiad bywyd yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth lunio darpariaeth, gyda'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia a'r rhaglen EmpowerMind yn cefnogi cydgynhyrchu a sicrhau bod lleisiau pobl yr effeithir arnynt gan ddementia yn llywio datblygiad gwasanaethau. Mae Cynllun Cydgynhyrchu newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gryfhau'r dull hwn ymhellach.






Amcan Lles 3

# Cefnogi Pobl Allan o Dlodi

# Cyflwyniad

Mae Caerdydd wedi gweld twf economaidd cryf dros y degawdau diwethaf, ond mae anghydraddoldeb dwfn yn parhau, gyda rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi'u lleoli yn y ddinas. Mae pwysau costau byw parhaus yn parhau i roi straen sylweddol ar aelwydydd, gan ei gwneud hi'n anoddach i lawer o bobl gwrdd â chostau byw hanfodol, cynyddu ansicrwydd ariannol, a dyfnhau gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes.





Mewn ymateb, mae partneriaid ar draws BGC Caerdydd yn gweithio gyda'i gilydd i leihau tlodi ac anghydraddoldeb, gan ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach sy'n gyrru anfantais. Mae hyn yn cynnwys camau i hyrwyddo gwaith teg, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac atal digartrefedd, ochr yn ochr â chryfhau mynediad at gymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Trwy waith cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar le, mae partneriaid yn anelu at sicrhau bod cymorth yn hygyrch, yn gydlynol ac yn canolbwyntio ar wella canlyniadau hirdymor i unigolion, teuluoedd a chymunedau.



# Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol[6] | | 2022-23 | 15 % | 12 % (2021-22) |  |
| Nifer y cyflogwyr ag achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol | | Ebrill 2026 | 226 | 225 (Ebrill 2025) |  |
| Nifer y gweithwyr sy'n cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf | | Ebrill 2026 | 11,458 | 10,211 (Ebrill 2025) |  |
| Disgwyliad oes iach adeg geni (gwrywod a benywod) | Gwrywod | 2022-24 | 60.1o flynyddoedd | 61.3 o flynyddoedd (2021-23) |  |
| | Benywod | | 59.5o flynyddoedd | 61.0 o flynyddoedd (2021-23) |  |
| Bwlch amddifadedd disgwyliad oes iach adeg geni (gwrywod a benywod) | Gwrywod | 2018-20 | 13.7o flynyddoedd | 19.7 o flynyddoedd (2017-19) |  |
| | Benywod | | 18.5o flynyddoedd | 14.6 o flynyddoedd (2017-19) |  |
| Canran y babanod â phwysau geni isel | | 2024 | 5.7 % | 6.0 % (2023) |  |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd ( % wedi'i safoni yn ôl oedran) | | 2021/22 & 2022/23 | 40.6 % | *Ffigur ddim yn gymharol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg* | |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd: bwlch amddifadedd (y gwahaniaeth rhwng canrannau ar gyfer yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yng Nghaerdydd)[7] | | 2025 | 15.3 % | 6.9 % (2024) |  |
| Canran yr oedolion a fodlonodd ganllawiau gweithgarwch corfforol yn yr wythnos flaenorol (h.y. 150 munud neu fwy o weithgarwch corfforol cymedrol neu egnïol) ( % wedi'i safoni yn ôl oedran) | | 2021/22-2022/23 | 64.7 % | *Ffigur ddim yn gymharol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg* | |

[6] Mae dadansoddiad o Amddifadedd Incwm yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), gan ddefnyddio Maes Incwm Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019), i'w weld yn yr adroddiad Caerdydd yn 2026.

[7] Sylwch fod y data diweddaraf yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025; blynyddoedd blaenorol yn defnyddio MALIC 2019.

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion sy'n weithgar am lai na 30 munud mewn wythnos: bwlch amddifadedd (y gwahaniaeth rhwng canrannau ar gyfer yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yng Nghaerdydd)[7] | 2025 | 13.2 % | 11.0 % (2024) |  |
| Canran yr oedolion o oedran gweithio sy'n dweud eu bod o bwysau iach (Cyfartaledd Oed-benodol) [8] | 2021/22 & 2022/23 | 40.4 % | *Ffigur ddim yn gymharol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg* | |
| Canran yr oedolion sy'n smygwyr ar hyn o bryd ( % wedi'i safoni yn ôl oedran) | 2021/22 & 2022/23 | 12.3 % | *Ffigur ddim yn gymharol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y fethodoleg* | |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i gyflog blynyddol gros canolrifol | 2025 | 7.20 | 7.16 (2024) |  |
| Nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd | March 2026 | 40 | 21 (Mar-2025) |  |
| Tlodi bwyd: Nifer y parseli bwyd argyfwng a ddosbarthwyd o ganolfannau dosbarthu Caerdydd gan The Trussel Trust[9] | 2025 | 19,203 | 20,200 (2024) |  |
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd | 2018 | 9 % | *Nid yw'r ffigur cyfatebol ar gael* | |

[8] Sylwer bod canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach yn ôl amddifadedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad Caerdydd yn 2026 - mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2009-12.

[9] Ceir rhagor o ddata ar ddiffyg diogeledd bwyd yn yr adroddiad Caerdydd yn 2026.

# Beth mae'r Data yn ei Ddangos

Mae'r data'n tynnu sylw at effaith barhaus tlodi, anghydraddoldeb a phwysau costau byw ledled Caerdydd, er y cynnydd mewn rhai meysydd. Mae datblygiadau cadarnhaol yn cynnwys gwelliannau mewn pwysau geni isel ac arwyddion o welliant ar draws rhai mesurau o ansicrwydd bwyd. Mae Caerdydd hefyd yn parhau'n hollol ymrwymedig i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, er bod twf wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae amddifadedd materol yn parhau i fod yn broblem sylweddol, mae disgwyliad oes iach yn parhau i ostwng, tra bod fforddiadwyedd tai a chysgu ar y stryd yn parhau i fod yn heriau sylweddol. Mae'r data hefyd yn tynnu sylw at y graddau y mae amddifadedd yn parhau i siapio canlyniadau, gyda bylchau sylweddol mewn disgwyliad oes iach, ansicrwydd bwyd, diet, gweithgarwch corfforol a chyfraddau ysmygu rhwng cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig y ddinas.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2025/26

## Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae Caerdydd yn parhau i fod yn un o ddinasoedd mwyaf blaenllaw'r DU o ran hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gyda chefnogaeth partneriaeth gref yn gweithio drwy'r Bartneriaeth Dinas Cyflog Byw. Erbyn hyn mae 226 o gyflogwyr Cyflog Byw achredig ledled y ddinas, sydd gyda'i gilydd yn cyflogi tua 80,000 o bobl, gyda thua 11,400 o weithwyr yn derbyn codiad cyflog o ganlyniad uniongyrchol i achrediad.

Mae'r Bartneriaeth yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau angori allweddol a sectorau blaenoriaeth i annog achrediad pellach, gyda chefnogaeth mentrau fel Cynllun Cymorth Achredu'r Cyflog Byw Cyngor Caerdydd, sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i fusnesau bach a chanolig.

Er bod cynnydd wedi'i gynnal, disgwylir i dwf pellach ddod yn fwy heriol wrth i nifer y cyflogeion nad ydynt eisoes yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol leihau. Mae pwysau economaidd ehangach, gan gynnwys yr argyfwng costau byw, hefyd wedi effeithio ar gyfraddau achredu a chadw, gyda thueddiadau cenedlaethol yn dangos y gallai rhai sefydliadau ddewis peidio ag adnewyddu eu statws.

Mewn ymateb, mae gwaith ar y gweill i adnewyddu'r Cynllun Gweithredu tair blynedd fel rhan o gais Caerdydd i gadw ei statws Dinas Cyflog Byw, gan ailddatgan ymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a hyrwyddo cyflog teg ledled y ddinas.

## Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd

Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, mae partneriaid yn symud ymlaen â'r rhaglen Cynyddu Gwaith Atal trwy ddull system-gyfan sy'n cryfhau atal ar draws cwrs bywyd:

- **Sgrinio'r Coluddyn:** Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu a sicrhau ansawdd Sgrinio Coluddion Cymru; fodd bynnag, mae gwella defnydd o sgrinio yn parhau i fod yn flaenoriaeth a rennir ar draws sefydliadau partner. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2023/24 yn nodi cyfraddau sgrinio'r coluddyn o 63.2 % yng Nghaerdydd, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 65.5 %. Er bod hyn yn ostyngiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae ehangu'r rhaglen i gynnwys grwpiau oedran iau, sy'n llai tebygol o gymryd rhan pan maen nhw'n cael eu gwahodd gyntaf, yn debygol o fod wedi cyfrannu at y duedd hon. Mae anghydraddoldebau sylweddol yn parhau, gyda defnydd is ymhlith dynion, pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a rhai ardaloedd clwstwr gofal sylfaenol. Gan gydnabod yr angen i wella'r defnydd a lleihau anghydraddoldebau ar draws rhaglenni sgrinio, mae partneriaid wedi gweithio ar y cyd i gefnogi gweithredu targedig trwy broffiliau sgrinio lleol, hyfforddiant staff, ymgysylltu â'r gymuned a gwybodaeth hygyrch. Mae rhagor o waith wedi'i gynllunio i ddeall rhwystrau i gyfranogiad yn well ac archwilio dulliau newydd o wella ymwybyddiaeth ac ymgysylltu.
- **Lleihau Nifer y Bobl sy'n Ysmygu:** Mae partneriaid yn parhau i weithio tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru o Gymru ddi-fwg erbyn 2030 drwy gyfuniad o atal ysmygu, cymorth stopio smygu a chreu amgylcheddau di-fwg. Mae'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn parhau i ddarparu cymorth ymddygiadol am ddim ochr yn ochr â mynediad at therapi disodli nicotin a meddyginiaeth rhoi'r gorau i ysmygu trwy ysbytai, fferyllfeydd a lleoliadau cymunedol ledled Caerdydd a'r Fro. Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2025, cofnodwyd 973 o gleientiaid fel ysmygwyr a driniwyd. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd ystod o fentrau wedi'u targedu i gynyddu atgyfeiriadau a chyfraddau derbyn, gan gynnwys llwybrau atgyfeirio awtomatig ar gyfer menywod beichiog sy'n ysmygu, ymgyrchoedd digidol wedi'u hanelu

at grwpiau blaenoriaeth a gweithgarwch atgyfeirio datblygedig trwy ofal sylfaenol a chyfleoedd ychwanegol i breswylwyr gael mynediad at gymorth stopio smygu. Mae gwaith hefyd wedi parhau i gryfhau amgylcheddau di-fwg.  Trwy bartneriaeth rhwng BIPCaF a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, mae Swyddog Patrôl Dim Ysmygu pwrpasol wedi'i gyflwyno ar draws safleoedd ysbyty i godi ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth, lleihau cysylltiad â mwg ail-law a chyfeirio unigolion at gymorth stopio smygu.

- **Bwyd Da a Symud:** Mae'r Fframwaith Bwyd Da a Symud (2024-2030) yn parhau i ysgogi gweithredu ar y cyd i helpu pobl i fwyta'n dda, symud mwy a byw bywydau iachach ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Yn ystod 2025/26, ystyriodd BGC Caerdydd Adroddiad Blynyddol 2025 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, 'Yr Hyn sy'n Ein Hamgylchynu, sy'n Ein Siapio Ni: Dull System Gyfan o Atal Gordewdra a Diabetes Math 2', a chytunodd y byddai ei alwadau i weithredu yn parhau i gael eu datblygu drwy gyflawni'r Fframwaith. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Bwyd Da a Symud (2024-2026), gan gynnwys cryfhau gwaith partneriaeth a datblygu offer i gefnogi dull system gyfan. Mae cynnydd hefyd wedi'i wneud o ran creu amgylcheddau iachach drwy gryfhau cysylltiadau â'r system gynllunio, cymeradwyo Polisi Hysbysebu a Nawdd Cyngor Caerdydd sy'n cyfyngu ar hysbysebion bwyd a diod braster, halen a siwgr uchel, a datblygu mentrau tyfu cymunedol. Ar draws ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a mannau cyhoeddus, mae partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd i wella cyfleoedd ar gyfer bwyd da, symud, chwarae a gweithgarwch corfforol trwy fentrau fel y Grŵp Ysgolion Bwyd Da a Symud, rhaglen HerParks a Maeth i'ch Un Bach (MIUB). Mae rhaglenni gweithgarwch corfforol yn y gymuned hefyd wedi parhau ledled Caerdydd, wedi'i gefnogi gan ddatblygu Darganfyddwr Gweithgareddau Caerdydd newydd a gwaith partneriaeth i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd. Bydd Cynllun Gweithredu Bwyd Da a Symud diwygiedig ar gyfer 2026-2028 yn adeiladu ar y cynnydd hwn, gyda ffocws parhaus ar gefnogi cymunedau difreintiedig trwy weithredu ar y cyd tuag at nodau cyffredin.

- **Cynhwysiant Iechyd:** Mae partneriaid BGC Caerdydd yn parhau i weithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd sylweddol a brofir gan rai o grwpiau mwyaf agored i niwed ac ymyleiddiedig y ddinas drwy Wasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (GCICaF). Yn ystod 2025/26, mae'r cynnydd wedi canolbwyntio ar ymgorffori Cam 1 y rhaglen.  Mae hyn wedi cynnwys ehangu clinigau allgymorth iechyd i leoliadau lle mae grwpiau cynhwysiant yn byw neu'n mynychu, ac ymgorffori tîm mewngymorth arbenigol o fewn yr Uned Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae gwaith sy'n tracio carfan o bobl sy'n profi digartrefedd yn dangos effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys gostyngiadau mewn presenoldeb mewn adrannau brys, arosiadau byrrach mewn lleoliadau gofal brys, llai o dderbyniadau nad ydynt wedi'u cynllunio, a llai o ddyddiau gwely ysbyty. Yn ystod 2025/26, gwnaed cynnydd yng Ngham 2 y rhaglen, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu Hyb Cynhwysiant Iechyd. Mae hyn wedi cynnwys adnewyddu'r Ganolfan Dewisiadau Tai i alluogi cydleoli timau allweddol o Gyngor Caerdydd, BIPCaF a phartneriaid trydydd sector i ddiwallu anghenion pobl sy'n profi digartrefedd yn well. Bydd y safle'n cynnal clinigau iechyd, Gwasanaethau Oedolion, cymorth i bobl sengl sydd angen asesiadau digartrefedd, apwyntiadau Tîm Amlddisgyblaethol, ac ymholiadau sy'n ymwneud â lleoliadau mewn llety dros dro a llety â chymorth. Mae'r camau nesaf yn cynnwys nodi cyllid ychwanegol i ehangu gweithlu GCICaF i gefnogi darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol llawn, integreiddio GCICaF â'r Tîm Amlddisgyblaethol Digartrefedd, ac adnewyddu'r llawr canol i gefnogi cydleoli partneriaid ychwanegol ymhellach, gan gynnwys ystyried y Gwasanaeth Prawf a'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh).

- **Caerdydd yn Fabwysiadwr Cynnar Cenedl Marmot:** Yn ystod 2025/26, cadarnhawyd Caerdydd yn Fabwysiadwr Cynnar Cenedl Marmot, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu dull ataliol a arweinir gan ddata o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc 5-11 oed sydd 'ar ffiniau gofal', yn enwedig yn Nhrelái a Chaerau, gan adlewyrchu'r cysylltiadau cryf rhwng amddifadedd, tlodi plant a mynediad i ofal. Gan adeiladu ar agenda atal ehangach Caerdydd, bydd y rhaglen yn ceisio datblygu dull mwy cydgysylltiedig a

lleol o gefnogi plant a theuluoedd, gan ganolbwyntio ar ddeall angen, nodi cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynharach a gwella canlyniadau i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.

## Atal Digartrefedd a Chysgu ar y Stryd

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Caerdydd argyfwng tai mewn ymateb i bwysau sylweddol a'r galw parhaus am wasanaethau digartrefedd. Ers hynny, mae ffocws parhaus ar atal ac ymyrraeth gynnar wedi helpu i gryfhau mynediad at gymorth, gyda gwasanaethau'n cael eu darparu trwy Hybiau Cymunedol a lleoliadau eraill ledled y ddinas.

Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd ystod o fesurau i gynyddu'r cyflenwad o lety a'i ansawdd. Mae hyn yn cynnwys darparu tai modiwlaidd, fel y cynllun yn Nhŷ Effraim, ochr yn ochr â defnydd parhaus o'r dull 'defnydd yn y cyfamser', sy'n defnyddio tir sy'n aros i gael ei ddatblygu i ddarparu cartrefi dros dro o ansawdd uchel. Mae Caerdydd yn parhau i fod ar flaen y gad o ran y dull hwn, gyda safle'r Gwaith Nwy yn parhau i ddarparu capasiti sylweddol. Mae cyflenwad ychwanegol hefyd wedi'i greu trwy gaffaeliadau eiddo ac addasu, gan gynnwys datblygiadau yn Heol Richmond a Harbwr Scott, ochr yn ochr â chynlluniau pellach sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Yn fwy cyffredinol, mae Rhaglen Datblygu Tai Caerdydd yn parhau i gefnogi cyflenwad tymor hwy, gan ddarparu 337 o gartrefi cyngor newydd yn 2025/26 a 1,831 hyd yma, gyda datblygiad pellach wedi'i gynllunio ledled y ddinas.

Ochr yn ochr â chynyddu llety, mae gweithgarwch partneriaeth wedi canolbwyntio ar gefnogi pobl ag anghenion mwy cymhleth. Trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, mae dull gweithredu iechyd y cyhoedd yn cael ei fabwysiadu i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n wynebu'r rhai sydd â ffyrdd o fyw sy'n seiliedig ar y stryd, gan gynnwys allgymorth cryfach, cymorth lles, a llwybrau gwell i lety a gwasanaethau iechyd. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wella diogelwch a chymorth mewn lleoliadau llety â chymorth trwy welliannau amgylcheddol a dulliau lleihau niwed.

Er bod y datblygiadau hyn wedi cryfhau ymateb y ddinas, mae'r galw am wasanaethau yn parhau i fod yn uchel, a bydd gwaith partneriaeth parhaus yn hanfodol i atal digartrefedd, lleihau dibyniaeth ar lety dros dro, a chefnogi unigolion i mewn i dai mwy sefydlog.





Amcan Lles 4


# Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

# Cyflwyniad

Mae cymunedau yn sylfaenol i les ac yn chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu pobl â'r rhwydweithiau cymdeithasol a'r gwasanaethau bob dydd sy'n cefnogi bywydau boddhaol. Maent yn gyfoethog mewn gwybodaeth, sgiliau a gwytnwch lleol, sy'n helpu i lunio cymeriad unigryw'r ddinas.

Mae Caerdydd yn parhau i fod yn un o'r dinasoedd mwyaf diogel a chynhwysol yn y DU. Mae BGC Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal ac adeiladu ar hyn drwy weithio mewn partneriaeth i atal niwed, lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a mynd i'r afael â bregusrwydd ac ecsbloetiaeth ym mhob ffurf. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf ar atal, ymyrraeth gynnar, a chefnogi cymunedau cydlynol, cynhwysol.

Trwy waith cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar le, nod partneriaid yw creu amgylcheddau diogel, croesawgar lle mae pob preswylydd yn teimlo'n hyderus, ac yn teimlo cefnogaeth a'r gallu gymryd rhan lawn yn ei gymuned.






# Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod 'mlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | 2021-22 | 63 % | 69 % (2020-21) |  |
| Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. | 2021-22 | 33 % | 25 % (2020-21) |  |
| Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio). | 2021-22 | 63 % | 66 % (2020-21) |  |
| Cyfran y bobl sydd wedi troseddu sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc) | Gorffennaf 23 - Mehefin 24 | 35.6 % | 34.0 % (Gorffennaf 22 - Mehefin 23) |  |
| Canran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd | 2025-26 | 80 % | 74 % (2024-25) |  |
| Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n gwirfoddoli | 2022-23 | 32 % | 30 % (2021-22) |  |

## Beth mae'r Data yn ei Ddangos

Mae'r data'n tynnu sylw at gryfderau a heriau yng nghymunedau Caerdydd. Mae arwyddion calonogol o gyfranogiad a gwydnwch cymunedol, a adlewyrchir yng nghanfyddiadau preswylwyr o'u gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, lefelau gwirfoddoli, a chyfran uwch o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn adrodd gwelliant yn eu hansawdd bywyd. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos heriau mewn perthynas â chydlyniant a diogelwch cymunedol, gan gynnwys lefelau o berthyn, perthnasoedd cadarnhaol rhwng gwahanol grwpiau, a theimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. Mae cyfraddau aildroseddu hefyd yn parhau i fod yn gymharol uchel ac wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r data hefyd yn awgrymu bod profiadau'n amrywio ar draws cymunedau a grwpiau poblogaeth, gyda lefelau is o gydlyniant cymunedol a gwirfoddoli mewn ardaloedd mwy difreintiedig, a chanfyddiadau is o ddiogelwch ymhlith pobl anabl, menywod a thrigolion hŷn.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2025/26

## Diogelwch Cymunedol

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y BGC yn parhau i arwain dull cydgysylltiedig amlasiantaethol o leihau troseddu, anhrefn a niwed ledled Caerdydd, gan ganolbwyntio ar atal, gweithio mewn partneriaeth a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol bregusrwydd.

Mae cynnydd ar draws meysydd allweddol yn cynnwys:

- **Atal Trais:** Cyhoeddwyd Strategaeth Caerdydd Ddi-Drais 2025-2028 ym mis Mehefin 2025, gan nodi dull gweithredu iechyd cyhoeddus a rennir o leihau trais ledled y ddinas, gyda ffocws ar ddeall a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol niwed. Mae'r Strategaeth yn dwyn ynghyd raglen eang o waith sy'n rhychwantu meysydd allweddol trais a bregusrwydd, gyda chefnogaeth Cynllun Cyflawni Partneriaeth a threfniadau llywodraethu cryfach. Yn ystod 2025/26, mae partneriaid wedi parhau i gyflawni gweithgarwch ar draws pob maes o'r Strategaeth, wedi'i ategu gan gydgysylltu gwell, rhannu deallusrwydd, a dull gweithredu a arweinir yn fwy gan ddata. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), megis paratoi ar gyfer ailgomisiynu gwasanaethau arbenigol, parhau i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gwelliannau mewn casglu data ac ymgysylltu â goroeswyr, a chryfhau prosesau'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg MARAC[10] i gefnogi ymatebion amlasiantaethol mwy cyson. Mae gwaith i wella diogelwch yn economi'r nos wedi cynnwys cyflwyno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, datblygu hyfforddiant ac e-ddysgu'r gweithlu, a chydlynu gwasanaethau fel Marsialiaid Nos, y cynllun Mannau Diogel a'r Ganolfan Triniaeth Alcohol. Ochr yn ochr â hyn, mae gweithgarwch i fynd i'r afael â chamfanteisio, troseddau cyfundrefnol, troseddau cyllyll a bregusrwydd ehangach yn parhau trwy weithgarwch gorfodi ar y cyd, gwaith atal wedi'i dargedu, a chysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau diogelu, plismona a chymorth.
- **Mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol:** Mae'r Bartneriaeth wedi cryfhau ei hymateb strategol a lleol i ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy'r Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Strategol a sefydlu trefniadau partneriaeth cymdogaeth. Yn ystod 2025/26, mae gweithgarwch wedi canolbwyntio ar faterion fel defnydd anghyfreithlon o e-feiciau ac e-sgwteri, troseddau amgylcheddol a phryderon diogelwch y cyhoedd, gan gyfuno gorfodi ag atal ac addysg. Mae hyn wedi cynnwys gweithrediadau ar y cyd i atafaelu cerbydau a ddefnyddir yn anghyfreithlon, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol, a chyfathrebiadau ar y cyd â phobl ifanc i hyrwyddo ymddygiadau diogel. Mae dulliau lleol ar draws ardaloedd, gan gynnwys Butetown, Adamsdown a'r Sblot, a Threlái a Chaerau wedi dod â phartneriaid at ei gilydd i gyflawni ymyriadau wedi'u targedu fel patrolau lefel uwch, gwelliannau amgylcheddol, cynlluniau peilot goleuadau stryd a gweithgareddau allgymorth cydgysylltiedig, gan gefnogi dulliau gweithredu mwy ymatebol sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd o wella diogelwch cymunedol.
- **Ffyrdd o Fyw sy'n Seiliedig ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth:** Mae lleihau niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau, ecsbloetiaeth ac anghenion cymhleth yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gryfhau ymyrraeth gynnar, lleihau niwed a mynediad at driniaeth. Yn ystod 2025/26, mae'r cynnydd wedi cynnwys cyflwyno ymyriadau lleihau niwed arbenigol mewn llety â chymorth, gyda gwasanaethau bellach yn gweithredu ar y safle mewn lleoliadau hostel gyda chynlluniau ar gyfer ehangu pellach. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chanllawiau gweithredol ategol i sicrhau ymateb cyson, cydgysylltiedig i ddefnyddio sylweddau mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety. Mae'r cynllun peilot Sgrinio Alcohol Uned Achosion Brys wedi cryfhau'n sylweddol y gwaith o adnabod niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ar gam cynnar, gan gynyddu gweithgarwch sgrinio a gwella llwybrau atgyfeirio i driniaeth, gyda thystiolaeth gynnar o ganlyniadau gwell i unigolion sy'n cael mynediad at gymorth. Ar yr un pryd, mae gwaith partneriaeth trwy'r System Gwybodaeth Cyffuriau Leol, Grŵp Sylweddau Niweidiol a Rheoledig yr Heddlu ac Operation Pester wedi cefnogi ymateb cydgysylltiedig i risgiau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sy'n dod i'r amlwg, gan gyfuno rhannu deallusrwydd, gorfodi wedi'i dargedu a gwell mynediad at wasanaethau triniaeth a chymorth.

[10] Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg

- **CONTEST:** Mae gwrth-eithafiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol trwy Strategaeth CONTEST. Yn ystod 2025/26, mae'r cynnydd o dan Prevent wedi cynnwys darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth, gwaith partneriaeth cryfach ar draws y rhanbarth, ac ymyriadau wedi'u targedu wedi'u llywio gan y Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth diwygiedig. Cynhaliodd Caerdydd hefyd gynhadledd Prevent Cymru gyfan i gefnogi rhannu gwybodaeth a datblygu partneriaeth. Gwnaeth Asesiad Perfformiad y Swyddfa Gartref ar gyfer 2025/26 roi sgôr o 'yn rhagori' i Gaerdydd ym mhob maes. O dan Amddiffyn/Paratoi, mae gwaith wedi parhau i gryfhau gwytnwch y ddinas trwy adolygu a mapio seilwaith diogelwch amddiffynnol, datblygu trefniadau diogelwch amddiffynnol, a chefnogaeth ar gyfer cyflwyno digwyddiadau'n ddiogel ledled y ddinas. Mae hyn wedi cynnwys gwaith i wella cydlyniad trwy grwpiau partneriaeth sefydledig a mwy o barodrwydd i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae paratoadau hefyd ar y gweill ar gyfer gweithredu Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025 (Cyfraith Martyn), gyda gweithgareddau pellach wedi'u cynllunio i gefnogi cydymffurfiaeth a chryfhau diogelwch amddiffynnol ledled Caerdydd.

## Diogelu

Yn ystod 2025/26, mae trefniadau llywodraethu wedi'u cryfhau trwy integreiddio'r Bartneriaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) â strwythurau trais difrifol a throseddau cyfundrefnol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu'r Grŵp Trais Difrifol, Diogelu, Troseddau Cyfundrefnol a Chamfanteisio (TDDTCCh), gan alluogi ymateb amlasiantaethol mwy cydgysylltiedig a strategol sy'n cyd-fynd â Strategaeth Caerdydd Ddi-Drais (2025-2028) gyda chefnogaeth cynllun cyflawni clir.

Mae'r Cynllun Cyflawni TDDTCCh wedi darparu fframwaith clir ar gyfer cyflawni, gyda ffocws ar allu'r gweithlu, ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau, atal ac ymyrraeth gynnar, gwell defnydd o ddata a dealltwriaeth, ac ymatebion diogelu cydgysylltiedig. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cefnogi dull mwy cyson a chydweithredol ar draws partneriaid.

Adlewyrchir cynnydd yn y wybodaeth a'r hyder cryfach sydd i'w weld ymysg ymarferwyr diolch i raglen dysgu a datblygu amlasiantaethol gynhwysfawr, sydd wedi cyrraedd dros 600 o ymarferwyr ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a chymunedau wedi cynyddu ymwybyddiaeth o lwybrau cymorth ac atgyfeirio, gan helpu i alluogi adnabod yn gynharach ac ymatebion mwy lleol trwy bartneriaethau cryfach. Mae gweithgarwch cyfathrebu, gan gynnwys Diwrnod Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Ecsbloetiaeth a datblygu adnoddau a rennir, wedi cefnogi ymwybyddiaeth a hyder proffesiynol ymhellach, ochr yn ochr â chynnydd wrth ddatblygu canllawiau cogio amlasiantaethol.

Bu datblygiad parhaus hefyd mewn atal ac ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn cynnwys creu adnoddau ar gyfer ysgolion ac asiantaethau partner, ochr yn ochr â gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i sefydlu gwefan cwricwlwm ac ymyriadau SAFE. Mae cydweithredu amlasiantaethol wedi cefnogi dealltwriaeth a rennir o ddiogelu wrth droi'n oedolyn, tra bod gweithgarwch dan arweiniad pobl ifanc ac ymyriadau wedi'u targedu, fel y Rhaglen Connect, yn cyfrannu at ymatebion i risgiau sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys trais rhwng cyfoedion.

Mae gwaith pellach wedi cryfhau ymatebion i ecsbloetiaeth a niwed y tu allan i'r cartref. Mae archwiliadau wedi'u targedu yn gwella sicrwydd diogelu, tra bod gwelliannau i ansawdd data a rhannu gwybodaeth yn cefnogi penderfyniadau mwy gwybodus. Mae adolygiad amlasiantaethol o lwybrau diogelu yn helpu i gryfhau prosesau uwchgyfeirio a lleihau dyblygu. Ar yr un pryd, mae gweithgarwch a hyfforddiant ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cynyddu cydnabyddiaeth o ddangosyddion ecsbloetiaeth, ac mae trefniadau diogelu mewn trafnidiaeth drwyddedig yn parhau i gael eu cryfhau trwy bolisi diwygiedig a goruchwyliaeth.

## Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau a Balchder Bro

Yn ystod 2025/26, un datblygiad allweddol oedd cynnwys Trelái & Caerau yn Rhaglen Balchder Bro Llywodraeth y DU, menter fuddsoddi hirdymor gyda'r nod o gefnogi gwelliant mewn cymdogaethau. Gan adeiladu ar y sylfaen gadarn a grëwyd drwy'r Cynllun Cymunedol, mae hyn yn gyfle i alinio blaenoriaethau a nodwyd yn lleol gyda buddsoddiad parhaus a gwaith partneriaeth cydgysylltiedig. Bydd y camau nesaf yn canolbwyntio ar ddatblygu rhaglen glir o weithgarwch o dan Balchder Bro, cynnal cyfranogiad cymunedol, a thargedu buddsoddiad i gefnogi gwelliant mewn cymdogaethau, cydlyniant cymunedol a gwytnwch tymor hwy.

## Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Yn 2026, dathlodd Caerdydd ddeng mlynedd ers croesawu ei theulu cyntaf o Syria o dan raglen adsefydlu'r Swyddfa Gartref. Er bod y Cynllun Adsefydlu Syriaid Agored i Niwed bellach wedi dod i ben, sefydlodd sylfaen gref ar gyfer cefnogaeth a arweinir gan bartneriaeth. Mae'r etifeddiaeth hon yn parhau i siapio dull gweithredu'r ddinas, gan alluogi Caerdydd i ymateb i anghenion y rhai sy'n ceisio lloches, gan gynnwys y rhai sy'n ffoi rhag gwrthdaro yn Affganistan ac Wcráin.

Yn ystod 2025/26, mae Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid wedi parhau i ddarparu ymateb cydgysylltiedig a hyblyg, wedi'i deilwra i anghenion gwahanol pob cynllun adsefydlu. Mae'r Tîm Cymorth i Ffoaduriaid yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau statudol, y sector gwirfoddol a chymunedol, landlordiaid a phartneriaid cyflogaeth i ddarparu cymorth cyfannol sy'n hyrwyddo integreiddio a sefydlogrwydd tymor hwy.

Ar ôl i Lywodraeth y DU gau'r cynllun Llety Cychwynnol yn raddol ar ddiwedd 2025, derbyniodd y ddinas atgyfeiriadau ychwanegol o Affganistan o rannau eraill o'r DU. Mewn ymateb, gweithiodd partneriaid ar y cyd ar draws tai, budd-daliadau a'r sector rhent preifat, gan gynnwys cryfhau perthnasoedd â landlordiaid preifat ac asiantau gosod tai. Er bod newidiadau i'r cap budd-dal dau blentyn wedi dod i rym ym mis Ebrill 2026, mae fforddiadwyedd rhent yn parhau i fod yn her sylweddol, ac mae gwaith achos a chymorth cyflogaeth cydgysylltiedig yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth wella canlyniadau tymor hwy.

Er bod newydd-ddyfodiaid o Wcráin yn parhau i fod yn is nag uchafbwyntiau blaenorol, mae cynnydd bach yn gynnar yn 2026 wedi gofyn am gydlyniad parhaus gyda noddwyr, grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a'r rhai sydd wedi cyrraedd yn barod yn cynnwys cyfeiriadedd a chymorth cychwynnol i gael mynediad at dai, gofal iechyd ac addysg, gan gyfrannu at ddull cydgysylltiedig sy'n cefnogi integreiddio a lles.

Mae gwaith partneriaeth cryf yn parhau i fod yn ganolog i'r dull hwn, gan alluogi'r ddinas i ymateb i ofynion newidiol wrth gynnal ei hymrwymiad i fod yn Ddinas Noddfa groesawgar.


## Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Gan adeiladu ar ymrwymiad Cyngor Caerdydd yn 2023 i gael gwared ar rwystrau i bobl â nodweddion a chyflyrau niwrowahanol, mae gwaith wedi parhau ar gyflymder gyda phartneriaid BGC i ddatblygu dull cydgysylltiedig ledled y ddinas o ddod yn Ddinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth.

Yn dilyn datblygu ac ymgynghori yn ystod 2024/25, mae Strategaeth Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth 2025-2030 bellach wedi'i chyhoeddi, sy'n gam pwysig ymlaen yn y gwaith hwn. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r uchelgais cyffredin ar draws partneriaid i hyrwyddo cynhwysiant, gwella dealltwriaeth o niwrowahaniaeth, sicrhau mynediad at wybodaeth ddibynadwy, a gwella hygyrchedd gwasanaethau a mannau cyhoeddus.

Ochr yn ochr â chyhoeddi'r strategaeth, mae gwefan Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth bwrpasol wedi'i lansio, gan ddarparu rhagor o wybodaeth am y fenter. Bydd y wefan yn parhau i gael ei datblygu i gynnig gwybodaeth ddefnyddiol am niwrowahaniaeth, yn ogystal â chyfeiriadau at gymorth a chyngor lleol i unigolion a theuluoedd. Bydd y platfform hwn yn cefnogi cyflawni'r strategaeth a gwaith partneriaeth parhaus ledled y ddinas.

Mae cylchlythyr Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth hefyd wedi'i gyflwyno, gyda rhifynnau'r Gwanwyn a Haf 2026 eisoes wedi'u cyhoeddi. Bydd hwn yn gylchlythyr chwarterol gyda'r nod o rannu gwybodaeth ddefnyddiol a rhoi sylw i straeon lleol cadarnhaol.




THE MILL

Amcan Lles 5


# Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru


# Cyflwyniad

Mae Caerdydd yn chwarae rhan ganolog wrth yrru twf economaidd a ffyniant cenedlaethol, gan weithredu fel canolbwynt ar gyfer diwylliant, chwaraeon ac arloesedd yng Nghymru.  Mae'r ddinas yn parhau i gynnal digwyddiadau rhyngwladol mawr ac yn gwasanaethu fel injan economaidd y Brifddinas-Ranbarth ehangach.


Mae BGC Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd llunio economi sydd nid yn unig yn cyflawni twf ond sy'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n cefnogi lles a chynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys creu cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau o ansawdd uchel a hygyrch, cefnogi busnesau ffyniannus, a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol fywiog.

Trwy weithio mewn partneriaeth, mae'r BGC yn canolbwyntio ar sicrhau bod twf economaidd yn trosi i gyfleoedd ehangach, gan alluogi mwy o bobl a chymunedau i elwa o lwyddiant y ddinas a chyfrannu at ei ffyniant yn y dyfodol.



# Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd ddiweithdra'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n economaidd weithgar | Ionawr - Rhagfyr 2025 | 4.9 % | 3.8 % (Ionawr-Rhagfyr 2024) |  |
| GYC y pen | 2023 | £40,064 | £37,949 (2022) |  |
| Incwm Gwario Gros Aelwyd y pen | 2023 | £20,020 | £19,213 (2022) |  |
| Cyflogeion â swyddi sy'n cynnig tâl yr awr sy'n is na'r cyflog byw | 2025 | 11.0 % | 10.7 % (2024) |  |
| Canran y boblogaeth (16-64 oed) â chymhwyster FfCRh4+[11] | Ionawr - Rhagfyr 2025 | 60.6 % | 54.4 % (Ionawr-Rhagfyr 2024) |  |
| Nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth y mae trigolion Caerdydd yn dechrau arnynt yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus | 2024/25 (Blwyddyn Academaidd) | 1,030 | 1,260 (2023/24) |  |
| Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith mewn blwyddyn | 2022-23 | 83 % | 84 % (2019-20) |  |
| Canran y bobl 16 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg | 2022-23 | 12 % | 13 % (2021-22) |  |

[11] Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n cefnogi NVQs (Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol) wedi'i ddisodli gan y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (FfCRh). Mae'r gwahanol lefelau cymhwyster i'w gweld yma.

# Beth mae'r Data yn ei Ddangos

Mae'r data'n adlewyrchu cryfderau parhaus Caerdydd fel prifddinas Cymru, yn enwedig mewn perthynas â sgiliau, diwylliant a pherfformiad economaidd, tra hefyd yn tynnu sylw at feysydd o heriau parhaus.  Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos perfformiad economaidd cryf, lefelau cymharol uchel o incwm gwario aelwydydd a lefelau cymwysterau uchel, tra bod Caerdydd yn parhau i berfformio'n gryf mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cymwysterau lefel uwch, cyfranogiad diwylliannol a chyfran y swyddi sy'n talu'n is na'r Cyflog Byw. Fodd bynnag, mae diweithdra yn parhau i fod yn her, mae'r niferoedd sy'n cychwyn prentisiaethau yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus wedi gostwng, ac mae cyfran sylweddol o swyddi'n parhau o dan y Cyflog Byw. Er bod cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, mae tueddiadau tymor hwy yn dangos twf parhaus yn y defnydd o'r Gymraeg. Mae'r data hefyd yn dangos nad yw manteision llwyddiant economaidd yn cael eu profi'n gyfartal ar draws y ddinas, gyda diweithdra a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol yn amrywio'n sylweddol rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2025/26

## Cynyddu Cyfleoedd Prentisiaeth a Hyfforddeiaeth

Mae partneriaid BGC Caerdydd yn parhau i weithio i ehangu cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, gan gefnogi datblygiad y gweithlu, cynhwysiant a llwybrau i gyflogaeth.

Yn ystod 2025/26, mae partneriaid wedi parhau i ddatblygu a darparu ystod o gyfleoedd.  Darparodd Cyngor Caerdydd 52 o leoliadau prentisiaeth a hyfforddeiaeth newydd drwy ei Gynllun Prentisiaid a Hyfforddeion Corfforaethol, gan ddod â chyfanswm y lleoliadau yn ystod y flwyddyn i 163. Mae BIPCaF wedi parhau i ymgorffori prentisiaethau fel elfen graidd o ddatblygu'r gweithlu, gyda ffocws cryfach ar uwchsgilio staff presennol, gan gynnwys 178 o gyflogeion presennol yn dechrau rhaglenni prentisiaethau, ochr yn ochr â chyfleoedd parhaus i newydd-ddyfodiaid a lleoliadau gwaith i ehangu mynediad at yrfaoedd yn y GIG.

Mae Heddlu De Cymru yn parhau i gynnig ystod o lwybrau mynediad i'r sefydliad, gan gynnig 148 o brentisiaethau newydd yn ystod 2025/26 (gan gynnwys llwybrau swyddogion a llwybrau nad ydynt ar gyfer swyddogion), ochr yn ochr â 24 o leoliadau i hyfforddeion fel interniaethau a chyfleoedd i raddedigion. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cynnal ei ddarpariaeth prentisiaethau, gan gefnogi 38 o brentisiaid yn ystod y flwyddyn wrth iddynt symud drwy a chwblhau eu fframweithiau, ochr yn ochr â datblygu rolau newydd a chynlluniau ar gyfer carfan arall yn 2026/27.

Mae CNC wedi parhau i ddarparu cyfleoedd prentisiaeth a lleoliadau gwaith targedig yn unol â'i swyddogaethau rheoleiddiol, gyda 9 unigolyn yn ymgymryd â rolau yn ardal Caerdydd yn 2025/26. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau gwaith sy'n canolbwyntio ar reoleiddio gwastraff, gorfodi a gweithgareddau perygl llifogydd, gan gefnogi datblygiad sgiliau arbenigol mewn meysydd o flaenoriaeth.

Mae Uned Gyflawni Prawf Caerdydd a'r Fro hefyd wedi cefnogi llwybrau i gyflogaeth drwy weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu, gan gynnwys digwyddiadau cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol i bobl ar brawf, gan helpu i feithrin sgiliau, hyder a mynediad at waith.

Wrth edrych ymlaen, mae partneriaid yn parhau i fod yn ymrwymedig i ehangu mynediad at gyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth, cryfhau llwybrau i gyflogaeth a chefnogi gweithlu amrywiol a chynhwysol ledled y ddinas.

## Cryfhau Darpariaeth Digwyddiadau a Diwylliannol y Ddinas

Mae partneriaid ledled Caerdydd yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd i gyflwyno rhaglen ddigwyddiadau gref ac amrywiol, gan gydbwyso digwyddiadau mawr gyda rheoli gwasanaethau o ddydd i ddydd yn effeithiol ledled y ddinas.

Mae'r buddsoddiad mewn gweithgarwch diwylliannol yn parhau i fod yn gryf, gyda chyllid wedi'i sicrhau ar gyfer Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yn 2026 a 2027. Mae'r digwyddiad cartref hwn yn parhau i ddod â sector cerddoriaeth a diwylliannol y ddinas at ei gilydd, gan adeiladu ar lwyddiant gwyliau 2024 a 2025, a ddenodd gyda'i gilydd oddeutu 94,000 o fynychwyr a chynhyrchu dros £5.4 miliwn o effaith economaidd.

Mae cerddoriaeth fyw hefyd yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn arlwy'r ddinas, gyda phartneriaid yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Blackweir Live a Chyfres Cyngherddau Castell Caerdydd. Yn dilyn dros 24 o gyngherddau yn 2025, mae mwy na 29 wedi'u cynllunio ar gyfer 2026, gyda'r effaith economaidd ragamcanol yn fwy na £40 miliwn ac ailfuddsoddiad parhaus mewn diwylliant llawr gwlad a mannau cyhoeddus.

Mae Caerdydd hefyd yn cryfhau ei phroffil rhyngwladol drwy ddigwyddiadau chwaraeon mawr, gan gynnwys croesawu Tarian Gymunedol yr FA yn 2026, cymal olaf y Grand Départ Tour de France 2027, a gemau ar gyfer Ewro 2028 UEFA, gan gynnwys y gêm agoriadol.

Wrth edrych ymlaen, bydd partneriaid yn datblygu Strategaeth Twristiaeth a Digwyddiadau wedi'i hadnewyddu ochr yn ochr â Strategaeth Ddiwylliannol newydd i sicrhau bod y ddinas yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn ac yn parhau i dyfu ei henw da cenedlaethol a rhyngwladol.

## Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae Caerdydd yn parhau i chwarae ei rhan yn nharged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg drwy gefnogi twf mewn sgiliau Cymraeg ledled y ddinas. Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025, amcangyfrifir bod 96,800 o bobl tair oed a throsodd yng Nghaerdydd yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cynrychioli 26.4 % o'r boblogaeth. Mae hyn yn gynnydd o 83,300 (22.8 %) ar y flwyddyn flaenorol ac yn sylweddol uwch na'r 12.2 % a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021. Er bod hyn yn dangos tuedd gref ar i fyny, dylid dehongli'r ffigurau hyn yn ofalus, gan mai data'r Cyfrifiad yw'r mesur ffurfiol o gynnydd yn erbyn targedau cenedlaethol o hyd.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027, sy'n cefnogi Cymraeg 2050 ac yn alinio â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-31 (CSCA), yn parhau i yrru cynnydd trwy waith partneriaeth ledled y ddinas. Yn ystod 2025/26, roedd cerrig milltir allweddol yn cynnwys cyflwyno trydydd digwyddiad Gyrfa Gymraeg yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, a fynychwyd gan dros 700 o ddisgyblion Blwyddyn 12, a wnaeth hyrwyddo gyrfaoedd cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd addysg bellach ac uwch. Mae'r prosiect Cymraeg i Bawb hefyd wedi ehangu'n genedlaethol yn dilyn llwyddiant cynllun peilot De-ddwyrain Cymru, gan ddangos effaith gweithio ar y cyd ar draws y rhanbarth.

Mae cynnydd hefyd wedi'i wneud o ran cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg a darpariaeth Gymraeg ar draws gwasanaethau a chymunedau. Ar draws gweithlu'r sector cyhoeddus, mae ffocws parhaus wedi bod ar ddatblygu sgiliau Cymraeg, gyda Chyngor Caerdydd yn adrodd bod gan 1,620 o staff sgiliau Cymraeg erbyn hyn, sy'n cynrychioli 21.3 % o'i weithlu ac yn rhagori ar ei darged o flaen amser. Mae'r ddarpariaeth ieuenctid Gymraeg hefyd wedi ehangu drwy waith partneriaeth, gan gynnwys cydweithrediad CFTi rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, yr Urdd a Menter Caerdydd, sydd bellach yn darparu dros 40 o sesiynau ieuenctid Cymraeg bob wythnos. Mae cymorth hefyd wedi'i ddarparu ar gyfer datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Coed-y-Gof. Yn ogystal, mae gwasanaethau cyfieithu ar draws partneriaid yn parhau i gefnogi gwasanaethau dwyieithog ar raddfa.

Wrth edrych ymlaen, bydd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu yn ystod 2026/27, ochr yn ochr â datblygu polisïau a dulliau wedi'u diweddaru i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn cefnogi twf parhaus mewn sgiliau Cymraeg, yn cynyddu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau ledled Caerdydd ar gael yn ddwyieithog.




Amcan Lles 6

# Caerdydd Un Blaned

# Cyflwyniad

Mae Caerdydd eisoes yn teimlo effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur, gyda thywydd eithafol mwy rheolaidd, pwysau cynyddol ar fioamrywiaeth, a risgiau cynyddol i seilwaith, iechyd y cyhoedd a diogelwch bwyd. Mae'r heriau hyn yn rhyng-gysylltiedig ac yn bellgyrhaeddol, ac mae angen newidiadau sylweddol i sut mae'r ddinas yn tyfu, sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, a sut mae systemau allweddol - fel trafnidiaeth, ynni, gwastraff a dŵr - yn cael eu cynllunio a'u rheoli.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae BGC Caerdydd yn parhau i gydweithio i ysgogi gweithredu ar draws y meysydd hyn. Mae partneriaid yn cryfhau ymdrechion i asesu risgiau hinsawdd, lleihau allyriadau, adfer natur a chefnogi ffyrdd iachach, mwy cynaliadwy o fyw.  Gyda phwysau yn parhau i ddwysáu, bydd cydweithredu parhaus a gweithredu cyflym yn hanfodol yn y blynyddoedd i ddod.






# Mesur Cynnydd

<table>
<tr><th colspan="2">Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno</th><th>Dyddiad y Data Diweddaraf</th><th>Data Diweddaraf</th><th>Data Cymharol Diweddar</th><th>Tuedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Allyriadau CO2 fesul pen o'r boblogaeth (t)</td><td>2023</td><td>3.8t</td><td>4.1t<br>(2022)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Canran sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gynaliadwy</td><td>2025/26</td><td>56.9 %</td><td>49.1 %<br>(2024/25)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfartaledd crynodiad NO2 mewn lleoliadau preswyl</td><td>2023</td><td>13µg/m3</td><td>14µg/m3<br>(2022)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfartaledd crynodiad PM10 mewn lleoliadau preswyl</td><td>2023</td><td>11µg/m3</td><td>14µg/m3<br>(2022)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfartaledd crynodiad PM2.5 mewn lleoliadau preswyl</td><td>2023</td><td>7µg/m3</td><td>9µg/m3<br>(2022)</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Parciau achrededig Baner Werdd</td><td>Nifer y safleoedd y dyfarnwyd y Faner Werdd iddynt</td><td rowspan="2">2025/26</td><td>23</td><td>22<br>(2024/25)</td><td></td></tr>
<tr><td>Nifer y safleoedd y dyfarnwyd Gwobr Gymunedol y Faner Werdd iddynt</td><td>23</td><td>23<br>(2024/25)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Canran y bobl sy'n byw o fewn pellter cerdded i fan gwyrdd o ansawdd uchel</td><td>2018-19</td><td>95 %</td><td colspan="2">Nid oes data cymharol ar gael.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Canran y nodweddion dynodedig mewn safleoedd cadwraeth gwarchodedig sydd mewn cyflwr 'ffafriol'. Mae safleoedd yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)</td><td>2020</td><td>15.4 %</td><td colspan="2">Nid oes data cymharol ar gael.</td></tr>
</table>

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran sy'n teimlo'n hyderus eu bod yn prynu bwyd sydd wedi'i gynhyrchu mewn ffordd ecogyfeillgar | 2025 | 42.2 % | 37.9 % (2024) |  |
| Canran sy'n teimlo bod yna fudiad bwyd da yng Nghaerdydd | 2025 | 35.2 % | 34.6 % (2024) |  |
| Nifer yr eiddo yng Nghaerdydd sydd wedi cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[12] | Meh-26 | 8,149 | 8,112 (Meh-25) |  |
| Canran y gwastraff dinesig a gaiff ei ailddefnyddio/ailgylchu/ gompostio | 2024-25 | 64.0 % | 60.1 % (2023-24) |  |

[12] Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2025 ymlaen yn debyg i flynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau posibl yn y fethodoleg. Darparwyd y ffigur hwn i CNC yn flaenorol gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac roedd yn cyfeirio at nifer yr eiddo a allai gael eu rhybuddio, gan gynnwys yr holl eiddo sydd wedi'u cofrestru'n llawn gyda'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd yn ogystal â'r rhai a ddarperir gan gwmnïau symudol/llinell dir. Ers i CNC adael Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Awst 2024, mae bellach yn cynhyrchu ei ffigurau ei hun. Ers 2025, mae'r mesur wedi newid i nifer y cyfeiriadau cofrestredig, sydd ond yn cynnwys y rhai sydd wedi cofrestru'n weithredol i dderbyn rhybuddion llifogydd. Nid yw'r mesur hwn yn debyg i ffigurau blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd oherwydd gwahaniaethau casglu data. Sylwer: Gall nifer yr eiddo sydd wedi'u cofrestru i'r gwasanaeth amrywio dros amser oherwydd addasiadau map maint llifogydd, glanhau data, trosiant preswylwyr, ac ati.

# Beth mae'r Data yn ei Ddangos

Mae'r data'n dangos cynnydd mewn nifer o feysydd sy'n ymwneud â gweithredu ar newid hinsawdd a'r amgylchedd yng Nghaerdydd. Gellir gweld gwelliannau diweddar mewn cyfraddau teithio cynaliadwy ac ailgylchu, tra bod y data diweddaraf sydd ar gael yn dangos allyriadau carbon is a gwell ansawdd aer o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae Caerdydd hefyd yn parhau i berfformio'n gryf mewn perthynas â mynediad at fannau gwyrdd a pharciau Baner Werdd achrededig. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau. Trafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau carbon o hyd, mae lefelau llygredd aer yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru, mae perfformiad ailgylchu yn dal i fod yn is na thargedau Llywodraeth Cymru, ac mae llawer o nodweddion cadwraeth gwarchodedig mewn cyflwr anffafriol neu anhysbys. Mae'r data hefyd yn awgrymu nad yw manteision a risgiau amgylcheddol yn cael eu profi'n gyfartal ar draws y ddinas, gyda boddhad is ar barciau a mannau agored mewn cymunedau mwy difreintiedig, ardaloedd o fynediad gwaeth i fannau gwyrdd, a risgiau llifogydd uchel mewn rhannau o Arc Ddeheuol y ddinas.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2026/27

## Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd

Mae Caerdydd yn parhau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy'r [Strategaeth Caerdydd Un Blaned (CUB)](), sy'n nodi llwybr y ddinas tuag at niwtraliaeth carbon. Mae'r Bwrdd Argyfwng Hinsawdd (BAH), is-grŵp o BGC Caerdydd, yn dwyn ynghyd bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys prifysgolion a chyfleustodau, i gefnogi cydlynu, rhannu gwybodaeth a gweithredu ar y cyd ledled y ddinas.

Yn ystod 2025/26, mae'r BAH wedi parhau i gryfhau cydweithredu ac adeiladu dealltwriaeth gyffredin o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau. Mae'r cynnydd wedi cynnwys rhannu arferion gorau ar draws meysydd fel dulliau gweithredu economi gylchol, cadwraeth dŵr a pholisïau teithio cynaliadwy, ochr yn ochr â gwaith ar y cyd i gefnogi newid ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynllun cymhelliant teithio cynaliadwy i annog staff i ddefnyddio teithio cyhoeddus a llesol, a chefnogaeth barhaus i fentrau fel y cynllun Switch Together, sy'n helpu preswylwyr a busnesau i gael mynediad at baneli solar a batris storio am gost is.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cefnogi dulliau cydweithredol o ddatgarboneiddio trwy gaffael a seilwaith a rennir. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â fframweithiau Llywodraeth Cymru i gefnogi prynu cerbydau trydan ar y cyd a gwaith ehangach i gryfhau dulliau caffael carbon isel ar draws sefydliadau partner. Yn ogystal, mae partneriaid yn archwilio seilwaith a rennir fel gwefru cerbydau trydan ar safleoedd allweddol a chyfleoedd i leihau allyriadau o adeiladau. Mae hyn yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer rhwydwaith gwres yn ardal Parc Cathays a gwaith pellach i asesu'r potensial i ymestyn Rhwydwaith Gwres Caerdydd presennol i sefydliadau partner, gan helpu i leihau allyriadau ar draws sawl safle. Ochr yn ochr â hyn, mae partneriaid yn parhau i rannu gwersi ar wella effeithlonrwydd ynni adeiladau a lleihau allyriadau o ystadau.

Mae'r BAH hefyd wedi parhau i gefnogi mentrau amgylcheddol fel rhaglen Coed Caerdydd, a welodd dros 37,000 o goed yn cael eu plannu yn ystod 2025/26.

Ar lefel dinas gyfan, mae allyriadau carbon yn parhau i ddangos tuedd ar i lawr. Yn 2023 (y data diweddaraf sydd ar gael), cyfanswm yr allyriadau oedd 1.55 miliwn tunnell, sy'n ostyngiad o 14.7 % o gymharu â 2019, tra gostyngodd allyriadau y pen gan 21.6 %. Trafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau o hyd, gan gyfrif am 43.9 % o'r cyfanswm, ac yna'r sectorau domestig a masnachol. Er bod gostyngiadau wedi'u cyflawni ar draws sawl maes, gan gynnwys gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau o wastraff, mae'r data'n tynnu sylw at y ffaith fod trafnidiaeth, defnydd ynni domestig a gweithgarwch masnachol yn parhau i fod yn heriau allweddol.

Er y cynnydd, mae cyflawni dinas garbon niwtral erbyn 2030 yn parhau i fod yn her sylweddol. Er bod sefydliadau partner yn dal i weithio at dargedau uchelgeisiol yn unigol, nid oes dull gweithredu sydd wedi'i alinio'n llawn ar draws systemau a'r BGC wedi'i sefydlu eto. Bydd y ffocws wrth symud ymlaen ar gryfhau cydgysylltu, cynyddu gweithgarwch ar y cyd a chyflymu cynnydd yn y meysydd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar allyriadau.

## Addasu i'r Hinsawdd

Ochr yn ochr ag ymdrechion i leihau allyriadau carbon, mae BGC Caerdydd yn cryfhau gwytnwch y ddinas i effeithiau newid hinsawdd. Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd (ARNH) cynhwysfawr, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2025, yn nodi risgiau allweddol gan gynnwys llifogydd, tarfu ar seilwaith, gorboethi, ac effeithiau ar iechyd, busnesau a bioamrywiaeth. Mae hefyd yn tynnu sylw at anghysondebau yn y ffordd y mae risgiau hinsawdd yn cael eu cofnodi ar draws sefydliadau partner a chyfleoedd i wella cydweithredu.

Mewn ymateb, mae'r BGC wedi cytuno ar ddull strwythuredig o ymgorffori risg hinsawdd ar draws fframweithiau risg strategol a gweithredol sefydliadau, ochr yn ochr â nodi risgiau cyffredin ar draws y system. Fel rhan o ymdrechion gwytnwch ehangach, mae partneriaid hefyd yn gwella hygyrchedd gwybodaeth gyhoeddus. Er enghraifft, yn 2025/26 cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymgyrch gyfathrebu yn darparu cyngor ar lifogydd mewn 10 iaith wahanol drwy gyfieithu taflenni, gan helpu i sicrhau y gall mwy o gymunedau baratoi ar gyfer peryglon llifogydd ac ymateb iddynt.

Tra bod yr ARNH yn cael ei gwblhau, dechreuodd partneriaid gryfhau eu dealltwriaeth gyffredin o

risgiau hinsawdd trwy weithgarwch ar y cyd. Ym mis Mehefin 2025, ymunodd y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd â phartneriaid BGC y Fro mewn gweithdy a hwyluswyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, gan ganolbwyntio ar effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a'r defnydd o dechnegau rhagweld. Gwnaeth hyn gefnogi dealltwriaeth gyffredin o risgiau hirdymor a helpu i lunio sut mae sefydliadau yn ymateb i risgiau hinsawdd yn ymarferol.

Yn dilyn cymeradwyaeth, mae partneriaid wedi dechrau adolygu eu cofrestrau risg i ymgorffori'r canfyddiadau, gyda rhaglen o weithdai wedi'u cynllunio o haf 2026 i gefnogi'r gwaith hwn a nodi risgiau cyffredin. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi drwy Gofrestr Risg Newid Hinsawdd ar y cyd, gan alluogi dull mwy cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar bartneriaeth o reoli risgiau hinsawdd a chryfhau gwytnwch ledled Caerdydd.

## Adfer a Gwella Natur yn y Ddinas

Mae Partneriaeth Natur Leol (PNL) Caerdydd, a sefydlwyd yn 2020 fel rhan o raglen Partneriaethau Natur Lleol Cymru, yn parhau i ddod â phartneriaid ynghyd o bob sector i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cefnogi defnydd uwch o fannau gwyrdd a glas y ddinas - gan gynnwys parciau, afonydd a dyfrffyrdd - gan annog hamdden awyr agored cynhwysol a chysylltiad â natur.

Yn ystod 2025/26, cefnogwyd y dull partneriaeth hwn gan ymgysylltiad cymunedol cryf. Cynhyrchodd rhaglenni allgymorth a arweinir gan y Cyngor mewn parciau a mannau gwyrdd dros 23,000 o oriau gwirfoddoli, gan gyfrannu at welliannau amgylcheddol wrth gryfhau perchnogaeth gymunedol a balchder mewn mannau lleol.

Wrth edrych ymlaen, mae'r PNL yn datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) Lleol, a fydd yn nodi'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen i adfer a gwella natur ledled y ddinas. Mae mewnbwn wedi'i gasglu gan grwpiau bywyd gwyllt lleol ac arbenigwyr pwnc, gyda set gynhwysfawr o gamau gweithredu arfaethedig bellach ar waith. Yn dilyn newidiadau diweddar i'r fframwaith cenedlaethol, mae dogfennaeth ategol yn cael ei diweddaru, gyda disgwyl drafft terfynol yn haf 2026. Mae grŵp cyflawni wedi'i sefydlu i oruchwylio gweithrediad a monitro cynnydd, ochr yn ochr â chynlluniau i ddatblygu adnoddau ar-lein drwy'r wefan Awyr Agored Caerdydd i hyrwyddo cyfleoedd i weithredu.

Ochr yn ochr â'r gwaith strategol hwn, mae partneriaid yn parhau i gyflawni gwelliannau ymarferol drwy'r Rhaglen Adfer Afonydd a arweinir gan CNC. Yng Nghaerdydd, mae'r cynnydd yn cynnwys gwaith ar Nant Dowlais, lle mae nodweddion afon naturiol yn cael eu hadfer i wella amrywiaeth cynefinoedd a gwytnwch ecolegol hirdymor, gyda gwaith pellach ar y gweill ar draws y dalgylch ehangach. Mewn ardaloedd trefol, mae prosiectau fel cynllun Nant y Wedal ym Mharc y Mynydd Bychan yn symud tuag at y cam dylunio manwl, gyda'r gwaith adeiladu wedi'i gynllunio ar gyfer 2027. Bydd hyn yn adfer cwrs dŵr wedi'i addasu ac yn gwella bioamrywiaeth, mynediad ac ansawdd mannau gwyrdd a glas i gymunedau lleol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o ddull ehangach sy'n seiliedig ar ddalgylch o wella ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a gwytnwch llifogydd ar draws Afon Elái ac Afon Taf. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd ymgysylltu cymunedol pellach yn cefnogi datblygiad atebion hirdymor, cydlynol ar draws y systemau afon hyn.

## Hybu Bwyd Iach, Lleol a Charbon Isel

Mae partneriaid ledled Caerdydd wedi parhau i adeiladu ar gyflawniad Gwobr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Aur (Hydref 2024) y ddinas, gan weithio ar y cyd drwy Bwyd Caerdydd i hyrwyddo bwyd iachach, mwy lleol a charbon is.

Yn ystod 2025/26, mae gweithgarwch partneriaeth wedi cefnogi cynnydd o ran gwella amgylchedd bwyd y ddinas a hyrwyddo dewisiadau iachach. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyaeth Cyngor Caerdydd i Bolisi Hysbysebu a Nawdd diwygiedig, sy'n cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion braster, halen a siwgr uchel ar draws ystâd y Cyngor, gan gynnwys arosfannau bysiau. Mae hyn yn gam pwysig wrth greu amgylcheddau bwyd iachach, a bydd yn cael ei roi ar waith wrth i gontractau presennol ddod i ben.

Ar yr un pryd, mae partneriaid yn gweithio gyda chyflenwyr a darparwyr gwasanaeth i gryfhau cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol o fewn y ddarpariaeth bwyd, gan gynnwys prydau ysgol, wrth baratoi ar gyfer cyflwyno Rheoliadau Bwyta'n Iach diwygiedig Llywodraeth Cymru yn 2026.

Mae gwerthusiad o Gynllun Gweithredu Strategaeth Bwyd y Cyngor hefyd wedi'i gwblhau, gyda gwaith bellach ar y gweill i adnewyddu'r strategaeth. Bydd hyn yn cefnogi aliniad parhaus â blaenoriaethau Bwyd Caerdydd ac yn sail i'r cam nesaf tuag at system fwyd leol fwy cynaliadwy, iach a gwydn.

## Cwblhau a chynnal y gwaith o weithredu'r Siarter Teithio Iach

Mae partneriaid ledled Caerdydd a Bro Morgannwg wedi parhau i gydweithio ar gyflawni Siarter Teithio Iach Caerdydd a'r Fro.

Yn ystod 2025/26, parhaodd ymgysylltiad cryf, gyda chyfranogiad parhaus mewn cyfarfodydd grŵp cymheiriaid, mwy o aelodau, a chyfleoedd i sefydliadau llofnodi gymryd rhan mewn trafodaethau un-i-un wedi'u teilwra ar eu dull o gefnogi teithio cynaliadwy. Mae sefydliadau siarter hefyd wedi hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth allweddol yn rhagweithiol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Wythnos y Beic, Diwrnod Aer Glân Cenedlaethol a Diwrnod Beicio i'r Gwaith.

Mae gwaith hefyd yn digwydd ar lefel genedlaethol, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddatblygu'r dull gweithredu Siarter Teithio Iach ymhellach. Mae hyn wedi helpu i wella aliniad rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, wrth gefnogi dull mwy cyson o ran sut mae cyflogwyr yn hyrwyddo teithio cynaliadwy. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at set newydd o safonau Siarter Teithio Iach cyfunol, sydd i'w chyhoeddi yn Chwarter 1 2026/27, ochr yn ochr â llofnodwyr newydd a gyda'r opsiwn i'w mabwysiadu ar draws rhanbarthau yng Nghymru. Mae ymgysylltiad â Sain Ffagan (Amgueddfa Cymru) hefyd wedi cefnogi'r gwaith hwn, gan archwilio opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i ac o'r safle a llywio gweithdy a gynhaliwyd gan Trafnidiaeth Cymru i fireinio'r safonau sy'n dod i'r amlwg ymhellach.

Yn ystod 2026/27, mae partneriaid yn bwriadu trosglwyddo'r holl lofnodwyr parod o Siarter Teithio Iach gwreiddiol Caerdydd a'r Fro i'r safonau cenedlaethol newydd ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Bydd hyn yn creu llwybr mwy hyblyg i sefydliadau ar gyfer gwella, cefnogaeth genedlaethol well, a chyfle i adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd trwy'r Siarter gwreiddiol.

## Cefnogi Cymunedau Cerddadwy a Chynaliadwy

Mae cynnydd wedi'i wneud wrth ymgorffori egwyddorion cymdogaethau cerddadwy mewn gweithgareddau adfywio a chynllunio ehangach ledled y ddinas, gan gefnogi cymunedau mwy cynaliadwy a hygyrch.

Datblygwyd a chymeradwywyd Strategaeth Adfywio ar gyfer Caerdydd gyfan ym mis Mai 2026 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, gan nodi fframwaith i gryfhau bywiogrwydd ac ymarferoldeb canolfannau ardal a lleol. Mae'r Strategaeth yn cefnogi datblygiad cymunedau cynaliadwy yn unol ag amcanion cynllunio ehangach, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol datblygol.

Mae'r Strategaeth yn mabwysiadu dull creu lleoedd at adfywio, gan ganolbwyntio ar wella cymdogaethau trwy fuddsoddiad cydgysylltiedig ac ymyriadau wedi'u teilwra'n lleol. Mae egwyddorion allweddol yn cynnwys cryfhau rhwydweithiau gwyrdd a glas, gwella mannau cyhoeddus, cefnogi canolfannau lleol ffyniannus a gwella cysylltedd o fewn a rhwng cymunedau.

Yn benodol, mae'r egwyddor "Cysylltiedig a Hygyrch i Bawb" yn cefnogi creu lleoedd sy'n galluogi symudiad diogel, hygyrch a chynaliadwy i bob defnyddiwr, gan helpu i leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat a chefnogi teithio mwy llesol a chynaliadwy.






Amcan Lles 7

# Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

# Cyflwyniad




Mae gwasanaethau cyhoeddus ledled Caerdydd yn parhau i wynebu galw cynyddol a chynyddol gymhleth, ochr yn ochr â phwysau ariannol sylweddol a rhagolygon heriol.  Mae'r pwysau hyn yn gyrru'r angen am drawsnewidiad parhaus i sicrhau bod gwasanaethau'n dal i fod yn wydn a chynaliadwy a gallu diwallu anghenion esblygol trigolion.

Mae BGC Caerdydd yn cefnogi dull cyfunol o gryfhau sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu ledled y ddinas. Mae hyn yn cynnwys dyfnhau gwaith partneriaeth, gwella sut mae data a deallusrwydd yn cael eu defnyddio i ddeall ac ymateb i angen, gwneud gwell defnydd o asedau cyhoeddus a rennir, a chryfhau dulliau o gynnwys ac ymgysylltu â dinasyddion. Gyda'i gilydd, mae'r meysydd hyn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer gwasanaethau mwy cydgysylltiedig, effeithlon ac ataliol.

Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, mae partneriaid hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu siapio gan leisiau cymunedau ac yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas, ochr yn ochr ag adeiladu'r gallu, y diwylliant a'r arweinyddiaeth sydd eu hangen i gefnogi newid hirdymor.

# Mesur Cynnydd

| Y dangosydd canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno | Dyddiad y Data Diweddaraf | Data Diweddaraf | Data Cymharol Diweddar | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Canran sy'n fodlon ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd | 2025 | 48.0 % | 49.8 % (2024) |  |
| Canran y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gyrraedd/cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt | 2021-22 | 92 % | 90 % (2020/21) |  |

# Beth mae'r Data yn ei Ddangos

Mae'r data sydd ar gael yn dangos darlun cymysg o wasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd. Er bod boddhad ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn is na 50 %, mae'r lefelau wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf pwysau parhaus ar wasanaethau cyhoeddus a chyllid cyhoeddus. Ar yr un pryd, mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n gryf mewn perthynas â mynediad at wasanaethau, gyda chyfran uchel o drigolion yn dweud eu bod yn gallu cyrraedd y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

# Trosolwg o waith y BGC yn 2025/26

## Cryfhau Gwaith Partneriaeth

Mae BGC Caerdydd yn parhau i adeiladu ar sylfeini cadarn o waith partneriaeth, wedi'i gefnogi gan aliniad rhwng y Cynllun Lles Lleol (2023-28) a Chynllun Ardal BPRh Caerdydd a'r Fro (2023-28). Mae gwaith parhaus i symleiddio llywodraethu ac egluro rolau wedi cryfhau atebolrwydd am gyflawni blaenoriaethau a rennir ar draws y system gwasanaeth cyhoeddus.

Yn ystod 2025/26, cytunodd y BGC i fabwysiadu dull Total Place f2.0 i gryfhau cydweithredu ymhellach. Mae'r dull hwn yn dod â phartneriaid at ei gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd, gan ganolbwyntio ar atal, gwella canlyniadau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau a rennir. Mae'n canolbwyntio'n arbennig ar feysydd lle mae'r galw'n uchel, costau'n codi, a lle na all sefydliadau unigol weithio ar eu pennau eu hunain i fynd i'r afael â heriau.

Mae tri maes ffocws cychwynnol wedi'u nodi:

- **Grwpiau Blaenoriaeth:** gwella cefnogaeth i unigolion ag anghenion cymhleth y mae angen mewnbwn arnynt gan wasanaethau lluosog, yn aml yn profi cefnogaeth dameidiog
- **Lleoedd Blaenoriaeth:** targedu buddsoddiad ac ymyrraeth gydgysylltiedig mewn cymunedau i gryfhau atal a lleihau'r galw hirdymor

Ochr yn ochr â hyn, mae'r BGC yn cymryd camau i gryfhau sut mae'n gweithredu fel partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agosach gyda'r BPRh i alinio blaenoriaethau, datblygu dulliau gweithredu mwy cydgysylltiedig o ran data a dealltwriaeth i ddeall anghenion yn well, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth ar y cyd a datblygu'r gweithlu i gefnogi system gwasanaeth cyhoeddus fwy integredig.

Mae cynnydd hefyd wedi'i wneud o ran cryfhau partneriaethau system ehangach, gan gynnwys gyda Phrifysgol Caerdydd. Yn ystod 2025/26, cytunodd partneriaid ar set o feysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio, gyda ffocws ar gysylltu ymchwil, data ac arloesedd yn fwy uniongyrchol â heriau gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, datblygu economaidd, cefnogaeth i blant a phobl ifanc, a datblygu arweinyddiaeth. Mae'r dull partneriaeth hwn yn anelu at symud y tu hwnt i gydweithredu ad hoc tuag at weithio mwy cydgysylltiedig, a arweinir gan broblemau, sy'n cefnogi canlyniadau gwell i gymunedau.

Wrth edrych ymlaen, bydd y BGC yn parhau i ddatblygu ei ddull gweithredu Total Place, gan ganolbwyntio ar drosi blaenoriaethau a rennir yn weithredu ymarferol, cyflawnadwy, cryfhau'r defnydd o ddata a mewnwelediad i lywio penderfyniadau, a dyfnhau cydweithrediad ar draws sefydliadau, cymunedau a lleoedd.

## Cynyddu'r Defnydd o Ddata, gan gynnwys Data a Rennir, Ar Draws Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae cryfhau'r defnydd o ddata, gan gynnwys data a rennir, yn parhau i fod yn ganolog i uchelgais BGC Caerdydd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy integredig, ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ystod 2025/26, mae partneriaid wedi parhau i ddatblygu a chymhwyso dulliau a yrrir gan ddata i wella dealltwriaeth o angen, cefnogi ymyrraeth gynharach a llywio penderfyniadau ar draws gwasanaethau.

Mae cynnydd wedi'i wneud wrth alluogi dulliau mwy cydgysylltiedig o rannu data. Mae'r prosiect Golwg Cyfun ar Blentyn yn parhau i ddatblygu, gan gysylltu data o wasanaethau lluosog - gan gynnwys gofal cymdeithasol plant, addysg, cyfiawnder ieuenctid a chamfanteisio - i greu cofnod mwy cynhwysfawr a chydlynol i unigolion. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn 2025, mae gwaith

bellach ar y gweill i gefnogi cyflwyniad llawn yn 2026, gan alluogi ymarferwyr i gael gafael ar wybodaeth fwy cyflawn wrth wneud penderfyniadau am gymorth i blant a theuluoedd.

Yn ategu hyn, mae'r Gwyliwr Gofal Cryno bellach yn fyw ar draws nifer o wasanaethau o fewn BIPCaF a Chynghorau Caerdydd a'r Fro, gan ddarparu golwg a rennir o wybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, mae partneriaid yn parhau i gryfhau'r defnydd o ddata a rennir i gefnogi cynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Mae'r Dangosfwrdd Diogelwch Cymunedol yn rhoi golwg lefel uchel ar ddata troseddau ledled Caerdydd ac mae bellach wedi'i sefydlu yn y Tîm Diogelwch Cymunedol, gan gefnogi ymyriadau mwy targedig ar sail tystiolaeth. Mae Dangosfwrdd y Ddinas, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn dwyn ynghyd amrywiaeth o ddata gan gynnwys dangosyddion lles i ddarparu trosolwg o dueddiadau allweddol ledled y ddinas, gyda diweddariadau parhaus i wella cwmpas a hygyrchedd.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cefnogi dulliau mwy cydgysylltiedig ar sail tystiolaeth o ddarparu gwasanaethau ac yn ffurfio sylfaen bwysig ar gyfer dull Total Place ehangach y BGC, gan alluogi partneriaid i ddeall y galw'n well, nodi blaenoriaethau cyffredin, a thargedu adnoddau yn fwy effeithiol.

## Dull Integredig o Reoli a Datblygu Asedau

Mae partneriaid wedi parhau i gryfhau dull mwy integredig o reoli tir, adeiladau a seilwaith sector cyhoeddus, gan gydnabod bod sut mae asedau'n cael eu cynllunio a'u defnyddio yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hygyrch, effeithlon ac ataliol.

Mae'r Bwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth (BRhAP) yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith hwn, gan ddarparu fforwm ar gyfer cydlynu buddsoddiad cyfalaf a chynllunio strategol ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Trwy hyn, mae partneriaid yn alinio eu strategaethau ystadau, yn nodi cyfleoedd ar gyfer cyd-leoli, ac yn bwrw ymlaen â phiblinell o brosiectau cyfalaf a rennir. Mae hyn yn cynnwys datblygiad parhaus cynlluniau hyb integredig, sy'n dod â gwasanaethau at ei gilydd mewn un lleoliad, gan wella mynediad i breswylwyr wrth gefnogi gwasanaethau mwy cydgysylltiedig ac ataliol.

Ochr yn ochr â hyn, mae ffocws cryf wedi bod ar sicrhau bod buddsoddiad yn y sector cyhoeddus yn cyflawni manteision ehangach i gymunedau lleol. Trwy raglenni caffael a chyfalaf ar y cyd, mae partneriaid yn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd cyflogaeth yn weithgar. Yn 2025/26, gwnaeth hyn gynnwys cyflawni manteision lles cymunedol sylweddol trwy gontractau mawr, gyda chymorth wedi'i dargedu i unigolion economaidd anweithgar trwy brentisiaethau, profiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae partneriaid hefyd wedi parhau i ymgorffori datgarboneiddio mewn rheoli asedau a chaffael. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gofynion Cynllun Lleihau Carbon cryfach ar draws y rhanbarth, mwy o ddefnydd o ddata caffael i nodi meysydd gwariant allyriadau uchel, ac ymgysylltu wedi'i dargedu gyda chyflenwyr i wella adroddiadau ar allyriadau. Mae gwaith hefyd ar y gweill i wella ansawdd a chysondeb data carbon, gan symud tuag at adroddiadau mwy cywir ar lefel y cyflenwr i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn well yn y dyfodol.

Mae'r BRhAP hefyd yn darparu mecanwaith i nodi a rheoli risgiau a rennir sy'n gysylltiedig â chyflawni cyfalaf, gan gynnwys pwysau ariannol, anwadalrwydd y farchnad a chyfyngiadau capasiti ar draws sefydliadau. Er bod yr heriau hyn yn parhau i fod yn sylweddol, mae partneriaid yn parhau i adeiladu ar sylfaen gadarn o gydweithio, gyda threfniadau llywodraethu sefydledig, dulliau a rennir a phiblinell gynyddol o brosiectau cydweithredol.

## Cynyddu Lefelau Ymgysylltiad Dinasyddion wrth Wneud Penderfyniadau

Mae gwrando ar leisiau dinasyddion yn parhau i fod yn ganolog i'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu siapio a'u darparu yng Nghaerdydd, gydag ymgysylltu ac ymgynghori'n parhau i chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu anghenion a phrofiadau cymunedau lleol.

Mae Adroddiad Trosolwg Ymgynghori BGC Caerdydd yn parhau i fod yn offeryn pwysig wrth gefnogi'r dull hwn. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd ganfyddiadau allweddol o weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori a gynhelir ar draws partneriaid gwasanaeth cyhoeddus, gan ddarparu golwg gyfunol ar brofiadau trigolion o'u bywydau, eu cymunedau a'u rhyngweithio â gwasanaethau. Wedi'i drefnu o amgylch Amcanion Lles y BGC, mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad

demograffig, lle bo hynny ar gael, i helpu i adeiladu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae profiadau a safbwyntiau yn amrywio ar draws gwahanol gymunedau. Disgwylir i'r rhifyn nesaf gael ei gyhoeddi yn haf 2026.

Ochr yn ochr â hyn, mae Grŵp Ymgysylltu Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro yn parhau i gefnogi dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu ar draws y rhanbarth. Er bod gweithgarwch wedi bod yn fwy cyfyngedig yn ystod 2025/26 oherwydd gofynion cystadleuol, mae'r grŵp wedi sefydlu perthynas waith gref rhwng partneriaid, gan alluogi cydweithredu parhaus, rhannu arfer da yn anffurfiol, a chymorth cymheiriaid ar draws sefydliadau.

Wrth edrych ymlaen, bydd ffocws parhaus ar gryfhau cydlyniad, gwella ansawdd a chysondeb gweithgarwch ymgysylltu, a sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn parhau i lywio penderfyniadau ar draws y BGC.

## Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n Ymateb i Amrywiaeth y Ddinas ac yn ei Hadlewyrchu

Mae gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth a rennir ar draws BGC Caerdydd, gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd drwy Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd, a nododd gyfres o gamau gweithredu i wella canlyniadau ar gyfer cymunedau ethnig amrywiol ledled y ddinas.

Yn ystod 2025/26, mae'r ffocws wedi symud tuag at ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb yn fwy systematig o fewn cynllunio a darparu gwasanaethau, gan sicrhau bod camau gweithredu i wella canlyniadau'n cael eu hintegreiddio i mewn i weithgarwch prif ffrwd ar draws sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys aliniad parhaus â strategaethau cydraddoldeb sefydliadol a phwyslais cryfach ar atebolrwydd a pherfformiad trwy fonitro ac adolygu rheolaidd.

Mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn, gan ddarparu fforwm ar gyfer cydweithio, dysgu a chydlynu ar draws partneriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Rhwydwaith wedi canolbwyntio ar nodi ffyrdd ymarferol o gryfhau cyflawniadau, gan dynnu ar arferion da sy'n dod i'r amlwg a chefnogi dull mwy cyson ar draws sefydliadau.

Fel rhan o hyn, datblygwyd set o gamau gweithredu diwygiedig i yrru cynnydd ar draws nifer fach o feysydd craidd, gan gynnwys arweinyddiaeth a diwylliant, amrywiaeth y gweithlu, darparu gwasanaethau cynhwysol a'r defnydd o werth cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu symudiad tuag at ymgorffori cydraddoldeb yn fwy cyson ar draws gwasanaethau, yn hytrach na chyflawni mentrau unigol.

Wrth edrych ymlaen, bydd y BGC yn cryfhau ei oruchwyliaeth o'r gwaith hwn trwy ddull adrodd blynyddol mwy strwythuredig.  Bydd hyn yn cefnogi mwy o dryloywder, yn gwella cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ac yn sicrhau bod cydraddoldeb a chynhwysiant yn parhau i fod yn ganolog i'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u darparu ledled Caerdydd.

